

# Cofrestrfa Tir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011/12

# Cofrestrfa Tir
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011/12

Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Cyfrifon wedi'u cyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 28 Mehefin 2012.

HC213 Llundain: Y Llyfrfa £21.25

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Os oes ymholiadau gennych am y cyhoeddiad hwn ffoniwch Gymorth Cwsmeriaid ar 0844 892 1111 neu e-bostiwch customersupport@landregistry.gsi.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr ar www.official-documents.gov.uk a www.cofrestrfatir.gov.uk

ISBN: 9780102977653

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Gyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2489116 06/12

Argraffwyd ar bapur gydag o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad gan y Cadeirydd | 4 |
| Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 5 |
| Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 7 |
| Gweledigaeth, pwrpas ac amcanion | 8 |
| Ein perfformiad | 9 |
| Ffigurau'r flwyddyn hon | 10 |
| Golwg ar y flwyddyn hon | 12 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 24 |
| (a) Manylion y cyfarwyddwyr | 24 |
| (b) Perfformiad busnes (DPA) | 27 |
| (c) Adroddiad cynaliadwyedd | 29 |
| (ch) Sylwebaeth rheolwyr/adolygiad ariannol | 33 |
| Gwybodaeth gryno | 36 |
| Cyfrifon | 41 |
| Datganiad llywodraethu | 42 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 47 |
| Adroddiad tâl | 48 |
| Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | 54 |
| Datganiadau ariannol | 55 |
| Atodiad A Maint o waith/llwyth gwaith | 77 |
| Atodiad B Cofnod y Trysorlys | 79 |

# Datganiad gan y Cadeirydd



**Mark Boyle**
Cadeirydd

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed ym mis Hydref, gan nodi'r dyddiad pwysig pan ddechreuwyd cofrestru tir yng Nghymru a Lloegr.

Felly pan gefais fy mhenodi fel ei Chadeirydd Anweithredol annibynnol cyntaf hydref diwethaf roeddwn yn ymwybodol o'r etifeddiaeth hanesyddol gryf yn ogystal â chyffro'r dyfodol.

Mae hwn yn sefydliad gyda hanes hir a balch o wasanaeth cyhoeddus a llwyddiant a'r her i mi yw adeiladu ar hyn yn unol ag amcanion y Llywodraeth gan barchu treftadaeth a phwrpas y Gofrestrfa Tir yr un pryd.

Y tro cyntaf i mi ddod ar draws y Gofrestrfa Tir oedd yn fy swydd gyda'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr, sy'n rhan o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Ers hynny daeth o dan adain y weithrediaeth pan symudodd i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Gorffennaf 2011. Fodd bynnag, mae fy mhenodiad fel Cadeirydd yn un annibynnol ac rwy'n ymwybodol bod rhaid cadw'r cyfrifoldebau hyn a'r rhai sydd dal i fod gennyf yn y Weithrediaeth Cyfranddalwyr ar wahân.

Roedd proffesiynoldeb a gallu'r Gofrestrfa Tir a'r sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol wedi'i chreu gan ei rhaglen ailstrwythuro a datblygu'r Strategaeth Cwsmeriaid wedi gwneud cryn argraff arnaf, ac mae'n parhau i wneud hynny.

Mae cyfle gennym bellach i adeiladu ar hyn, gyda Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn chwarae rhan lawnach a mwy strategol nag y mae wedi'i wneud yn y gorffennol.

Mae'r penderfyniad i greu fy rôl yn mynd yn ôl i adolygiad llywodraethu a dynnodd sylw at yr angen i gael gwahaniaeth clir rhwng y Bwrdd Gweithredol a Bwrdd y Gofrestrfa Tir, ynghyd â mwy o oruchwyliaeth dros strategaeth a pherfformiad y sefydliad.

Mae'r Gofrestrfa Tir wastad wedi bod yn adran hynod broffesiynol sy'n perfformio'n dda, ond bydd bwrdd goruchwylio annibynnol a chytbwys o swyddogion anweithredol yn cynnig gwahanol brofiadau a phersbectifau allanol. Fy mandad fel Cadeirydd yw ailfywiogi Bwrdd y Gofrestrfa Tir a chymryd yr awenau wrth osod y strategaeth gyffredinol a phenderfynu ar flaenoriaethau'r busnes. Mae'r Bwrdd Gweithredol, o dan arweiniad Malcolm Dawson, yn parhau i fod yn gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

Gyda'n gilydd mae Malcolm a finnau wedi adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd gyda'r nod o wella ei effeithiolrwydd. Mae hyn yn cynnwys cytuno ar gylch gorchwyl newydd i'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu.

Fy mlaenoriaethau cyntaf eraill oedd gwrando a dysgu am y sefydliad, drwy gwrdd a siarad â chynifer o gydweithwyr, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid â phosibl, ac ar y cyd â Malcolm, gweithio ar ddatblygu Strategaeth Busnes newydd.

Wrth wraidd yr olaf o'r rhain yw ystyried y cyfleoedd a gynigir gan y newid adran ac aelodaeth o'r Grŵp Data Cyhoeddus newydd, gan gysylltu'r themâu sy'n ategu ei gilydd sef mwy o effeithlonrwydd a thryloywder data er mwyn cefnogi nod cyffredinol y Llywodraeth o hybu twf economaidd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni chwarae rôl ehangach a mwy rhagweithiol yn economi'r DU nag yn y gorffennol, gan barthau i gyflawni ein dyletswydd graidd yr un pryd, sef sicrhau cywirdeb y Gofrestr Tir.

I gyflawni hyn rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i weithio'n agos ac mewn cytgord â phob un o'n budd-ddeiliaid, ein cwsmeriaid a'n gweithwyr.

Disgwylir i ni gyflawni llawer, gyda'r Llywodraeth yn chwilio am fwy o effeithlonrwydd a thryloywder, ein cwsmeriaid yn gofyn am gymorth a diogelwch parhaus, neu ein gweithwyr sydd am gael hyder a syniad clir o gyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Gwyddom fod gan y Gofrestrfa Tir orffennol nodedig. Dros y chwe mis diwethaf rwyf wedi dysgu bod teimlad o optimistiaeth am ei dyfodol wedi'i gyfiawnhau ond bod llawer o waith caled o'm blaenau os ydym am fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn.



**Mark Boyle**
Cadeirydd
Bwrdd y Gofrestrfa Tir

# Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr



**Malcolm Dawson OBE**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi newid er gwell dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid fi yn unig sy'n dweud hynny - mae ein cwsmeriaid o'r un farn hefyd.

Fy mlaenoriaeth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel y Prif Gofrestrydd Tir oedd cwrdd a siarad â chynifer o gwsmeriaid â phosibl. Rwyf wedi bod yn dysgu am eu busnesau, sut maent yn teimlo amdanom ni a sut y gallwn gydweithio'n fwy effeithiol.

Bu'r adborth a gawsom yn gadarnhaol. Dywedwyd wrthyf fod newid pendant wedi bod yn ein hymagwedd a'n hagwedd. Nid ydym yn gaeth i reolau a gweithio i'n hagenda ein hunain bellach. Yn lle hynny rydym yn fwy agored a hyblyg ac yn canolbwyntio mwy ar anghenion cwsmeriaid.

Yr enghraifft orau o hyn yw'r effaith a gafodd cyflwyno timau cwsmeriaid. Erbyn hyn daw bron 80 y cant o'n gwaith o gwsmeriaid sydd wedi cofrestru â thîm cwsmeriaid ymroddedig ac mae pob un o'r cwsmeriaid hyn y bues yn siarad â nhw yn teimlo'n gadarnhaol am y berthynas newydd sy'n cael ei meithrin.

Maent yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi pan fydd problemau'n codi. Cânt adborth ar ansawdd eu ceisiadau a'r meysydd lle mae problemau'n codi'n gyson. Mae hyn yn aml yn golygu y gall y cwsmer wella ei brosesau a'r hyfforddiant a gynigir i'w staff ynghyd ag elwa ar y manteision ymarferol a ddaw drwy wella effeithlonrwydd. Dros y 12 mis diwethaf roedd y nifer cyfartalog o ymholiadau ysgrifenedig fesul cwsmer cofrestredig wedi gostwng gan 35 y cant. Rydym wedi canolbwyntio hefyd ar leihau ceisiadau a wrthodir i bob cwsmer gyda lleihad o 22 y cant dros y cyfnod o 12 mis. Mae hyn yn arbed amser ac arian i ni ac i'n cwsmeriaid.

Mae'r ymagwedd ragweithiol hon, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, yn un a groesewir. Mae'n neges rwyf wedi'i chlywed yn ystod fy ymweliadau a hefyd pan fyddaf yn annerch mewn cynadleddau. Boed yn rhoddwyr benthyg, yn drawsgludwyr, yn weithwyr proffesiynol eiddo eraill neu'r cyhoedd, rydym yn gobeithio ac yn credu eu bod nhw wedi sylwi ar y gwahaniaeth yn ein ffordd o weithio. Mae'r gwelliant yn ein sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid o bum pwynt canran i 97 y cant dros y flwyddyn gyfan, gan gynnwys y sgôr anhygoel o 99 y cant yn y tri mis olaf, yn dyst i'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ar draws y sefydliad cyfan i weithredu ein Strategaeth Cwsmeriaid.

Mae cael adborth cadarnhaol o'r fath yn fy ysgogi i a'r sefydliad cyfan. Yn ogystal â chwrdd â chwsmeriaid, treuliais gryn dipyn o amser dros y 12 mis diwethaf yn siarad â chydweithwyr yn y Gofrestrfa Tir ac yn gwrando arnynt. Maent yn llawn syniadau ar sut i wella ein gwasanaethau ac yn awyddus i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â chwsmeriaid, gan wybod bod y seiliau wedi cael eu gosod ar gyfer dyfodol gwell.

Erbyn diwedd y flwyddyn ddiwethaf roeddem wedi cwblhau'r rhaglen ailstrwythuro heriol a ddechreuodd yn dilyn y dirywiad economaidd yn 2008. Caewyd swyddfeydd Stevenage a Tunbridge Wells, cynhaliwyd nifer o ymarferion diswyddo gwirfoddol mewn rhannau gwahanol o'r sefydliad a chwblhawyd y gwaith o osod contract allanol ar gyfer ein gwasanaeth cyfleusterau i Carillion a'n rhwydwaith storfa ffeiliau rhanbarthol i TNT.

Bu'n drist gweld cynifer o gydweithwyr gwerthfawr a phrofiadol yn gadael y sefydliad, nid yn unig y llynedd, ond dros y tair blynedd diwethaf. Ers 2008 rydym wedi lleihau ein gweithlu gan bron 44 y cant. Ond roedd rhaid gwneud y newidiadau hyn a gwnaethom ein gorau i'w rheoli mor ofalus â phosibl. Rydym yn ôl ar sail gynaliadwy bellach ac yn gallu hoelio ein sylw ar ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar ein cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid.

Ochr yn ochr â'r newid strwythurol dramatig, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld newidiadau mawr yn nulliau llywodraethu'r Gofrestrfa Tir. Croesawyd Mark Boyle fel y Cadeirydd Anweithredol cyntaf yn hanes y Gofrestrfa Tir ac, o ganlyniad, rydym wedi adolygu a diwygio strwythur a rôl Bwrdd y Gofrestrfa Tir i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth goruchwylio mwy effeithiol. Ym mis Gorffennaf 2011 symudodd cyfrifoldeb gweinidogol dros y Gofrestrfa Tir am y tro cyntaf o'r Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau. Roedd

parhad

hyn yn rhagflaenu ein rôl fel un o sylfaenwyr y Grŵp Data Cyhoeddus yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ar y cyd â'r Arolwg Ordnans, Tŷ'r Cwmnïau a'r Swyddfa Dywydd.

Mae'r newidiadau hyn yn rhan o amcanion y Llywodraeth ar gyfer gwella hygyrchedd data cyhoeddus a chefnogi twf economaidd ac maent wedi ychwanegu persbectif newydd at ein gwaith. Er bod ein pwrpas canolog yr un fath, sef cyflawni ein cyfrifoldebau statudol mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd, rydym hefyd yn canolbwyntio bellach ar ein rôl fel busnes data ac yn ystyried sut y gallwn wneud defnydd gwell o ddata a rhannu data er mwyn cefnogi twf ac effeithlonrwydd gwasanaeth cyhoeddus.

Fel cam cyntaf, rhyddhawyd Data Trafodiad misol am ddim am y tro cyntaf ym mis Ionawr a'n Data Pris a Dalwyd misol am ddim ym mis Mawrth. Mae'r ddwy set ddata wedi ennyn llawer iawn o ddiddordeb gan gwsmeriaid busnes a phreifat a dyma, yn fy marn i, yw'r cam cyntaf yn y gwaith o adleoli ein hadnoddau a'n hasedau er budd yr economi a chymdeithas yn gyffredinol.

Er bod llawer iawn wedi bod yn digwydd yn sefydliadol, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ein gwaith bob dydd. Mae perfformiad yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi bod yn dda iawn, er na lwyddom i gyrraedd pob targed. Rwyf eisoes wedi sôn am ein sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid oedd wedi rhagori ar y targed o 95 y cant. Rhagorwyd ar ein targedau ansawdd a chyllid hefyd ac aethpwyd ymhellach na'n meincnodau cwsmeriaid ac arloesi ym mhob maes heblaw refeniw masnachol, ymgysylltu â gweithwyr a chyflenwi electronig ar gyfer ein chwe phrif drafodiad delio.

Hyd yn oed yn y meysydd hynny lle nad oeddem wedi cyrraedd ein



targed, gwnaethpwyd cynnydd da. Bydd y gwasanaeth cofrestru e-ddogfennau, sef un elfen o'n targed e-wasanaeth na lwyddwyd i'w gwireddu, yn mynd yn fyw yn Business Gateway yn ystod yr haf ac ar y porthol erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Gwnaethpwyd cynnydd ar ymgysylltu â gweithwyr hefyd, er gwaetha'r amgylchedd anodd yn deillio o'r penderfyniad i barhau i rewi tâl a'r diwygiadau pensiwn. Er na chyrhaeddwyd y targed ar gyfer refeniw o'n gwasanaethau Add Value, gwelwyd cynnydd mewn incwm o 13 y cant a rhagorwyd ar y nod ar gyfer gwneud elw. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd da mewn amgylchedd masnachu anodd.

Felly, at ei gilydd, mae sylfaen ardderchog gennym i adeiladu arni dros y flwyddyn i ddod - un hanesyddol wrth i ni ddathlu ein pen-blwydd yn 150 oed. Rydym wedi cwblhau ein rhaglen ailstrwythuro ac yn canolbwyntio bellach ar ymgorffori'r newid diwylliannol sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth i'n cwsmeriaid. Rydym wedi adfer sefydlogrwydd ariannol ac yn disgwyl gostwng ein ffioedd yn ddiweddarach y flwyddyn hon, gan drosglwyddo'r manteision i'n cwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i weithio i gryfhau ein rôl yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Grŵp Data Cyhoeddus a meithrin perthnasoedd agosach byth â'n cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid allweddol. Yn olaf, byddwn yn cwblhau'r gwaith ar ein Strategaeth Busnes newydd gan amlinellu'r ffordd orau i ni allu cynnal adferiad economaidd, gwella effeithlonrwydd gwasanaeth cyhoeddus a chefnogi'r farchnad tir ac eiddo. Mae rhai heriau mawr o'n blaenau dros y ddwy i dair blynedd nesaf ond rwy'n ffyddiog y gallwn eu hwynebu er budd ein cwsmeriaid, ein partneriaid, ein gweithwyr a'r economi ehangach.



**Malcolm Dawson OBE**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2012

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir) yn 1862. Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn asiantaeth weithredol (ers 1990) ac yn gronfa fasnachu (ers 1993) ac nid ydym yn defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn darparu ar gyfer ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'n prif fusnes, a'r Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n adrannau llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Ein prif swyddogaeth yw cadw'r gofrestr o deitl i dir a phridiannau rhydd-ddaliol a phrydlesol yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan fydd wedi'i gofrestru. Ar ran y Goron rydym yn gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddiannau mewn tir.

Mae ein swyddogaethau yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau rhagorfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r grym i ni ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a dyma'r prif statud sy'n llywodraethu'r Gofrestrfa Tir.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar baramedrau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn am rolau a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein Dogfen Fframwaith 2008.

Gwasanaethwn boblogaeth o fwy na 55 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgeisi mwyaf gweithgar yn y byd. Mae ein Cofrestr Tir yn cynnwys mwy na 23 miliwn o deitlau, ac mae mwy na 12.2 miliwn o hectarau - neu oddeutu 79 y cant - o'r ehangdir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru erbyn hyn.

Rydym yn gweithredu trwy nifer o swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr. Mae ein Prif Swyddfa a Swyddfa Croydon yn rhannu Trafalgar House yn Croydon. Mae ein Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth, swyddfa Plymouth a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn rhannu Seaton Court yn Plymouth.



**Alasdair Lewis**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir

# Gweledigaeth, pwrpas ac amcanion



**David Evans**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

**Ein gweledigaeth**
Rhoi'r cwsmer, ansawdd ac arloesi wrth wraidd gwasanaethau cofrestru tir.

**Ein pwrpas**
Ein pwrpas yw cynnal a datblygu system sefydlog ac effeithiol o gofrestru tir sy'n darparu sicrwydd â chefnogaeth y wladwriaeth o deitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir yng Nghymru a Lloegr er mwyn hwyluso creu'r ystadau a'r buddion hynny a'u symudiad rhydd, a darparu mynediad hwylus i wybodaeth gyfoes a gwarantedig am dir er mwyn gallu delio'n hyderus mewn eiddo a gwarantu teitl.

**Ein hamcanion strategol**
Mae ein hamcanion strategol yn cyfateb â'n gweledigaeth o dan y categorïau cwsmeriaid, ansawdd, arloesi a chyllid. Fe'u cefnogir gan ein dangosyddion perfformiad allweddol a'n targedau.

**Cwsmeriaid**
Adnabod, rhagweld a bodloni anghenion cwsmeriaid drwy fireinio a datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli yn gyson

**Ansawdd**
Gwella cyflenwi gweithredol yn barhaus er mwyn ysgogi mesurau effeithlonrwydd, ansawdd a gwerth

**Arloesi**
Adeiladu sefydliad hyblyg ac effeithlon er mwyn i ni allu ymateb i amrywiadau yn y farchnad ac anghenion newidiol cwsmeriaid ac adnabod a gweithredu ar gyfleoedd datblygu i'r Gofrestrfa Tir

**Cyllid**
Cyrraedd yr holl dargedau ariannol ac effeithlonrwydd gan ariannu ein rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol

**Amrywiaeth**
Mae ein hamcan amrywiaeth wedi'i grynhoi yn yr amcanion tymor canolig ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil a graddau o dan yr Uwch Wasanaeth Sifil gyda'r nod cyffredinol o sicrhau cynrychiolaeth sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gyfan yn well

# Ein perfformiad



**John Peaden**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid

**Cyrhaeddwyd ein targedau ar gyfer:**

— bodlonrwydd cwsmeriaid
— ansawdd, cywirdeb a chyflymder ein cofrestriadau
— argaeledd ein sianeli electronig
— gwella, ehangu a gweithredu newidiadau i'n gwasanaethau electronig
— cynnydd yn ein rhaglenni ailstrwythuro, rheoli perfformiad a gwelliant parhaus
— ein perfformiad ariannol.

**Ni chyrhaeddwyd ein targedau ar gyfer:**

— cynyddu'r refeniw o'n gwasanaethau masnachol
— cynyddu nifer y gweithwyr sydd wedi ymgysylltu'n gadarnhaol.

**Gohiriwyd cyflawni ein targed ar gyfer:**

— darparu chwe trafodiad arall yn electronig.

## Ffiguarau'r flwyddyn hon

Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid

97%


Nifer y ceisiadau

Cyfanswm 23,306,501

Electronig 17,347,688

Nifer y gweithwyr

4,724 o bobl




Nifer yr hyrwyddwyr amrywiaeth

28



Nifer y lleoliadau swyddfa

**15**



Cofrestrfa Tir

**Mwy na 23 miliwn o deitlau yn y Gofrestr Tir**

Incwm

**£359.3m**

Gwarged a gadwyd

**£67.8m**

Difidend a dalwyd i'r Trysorlys

**£13.8m**

Costau gweithredu

**£257.7m**

## Golwg ar y flwyddyn hon

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi bod trwy flwyddyn ar ôl blwyddyn o newid mawr yn fewnol ac yn allanol ond y 12 mis diwethaf efallai oedd y rhai mwyaf tyngedfennol erioed.

Gyda phenodi Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr newydd - Malcolm Dawson - ar ddechrau'r flwyddyn, cafwyd newid hanesyddol wrth i'r sefydliad ymuno â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ar ôl treulio bron 150 o flynyddoedd o dan yr Arglwydd Ganghellor.

Ni hefyd oedd un o sylfaenwyr y Grŵp Data Cyhoeddus, ynghyd â Thŷ'r Cwmnïau, y Swyddfa Dywydd a'r Arolwg Ordnans, sydd i gyd yn atebol i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

"Mae arweinyddiaeth y Gofrestrfa Tir yn y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig wedi bod yn hynod drawiadol. Mae wedi rhoi i'r Gofrestrfa Tir enw da am fod yn sefydliad proffesiynol sy'n gallu rheoli ei hun a bydd hynny'n ei rhoi ar seiliau da. Mae pobl yn cydnabod bod y sefydliad hwn wedi wynebu a goresgyn rhai heriau anodd iawn dros gyfnod byr o amser ac mae hynny'n deyrnged enfawr i'r holl staff."



**Martin Donnelly**, Ysgrifennydd Parhaol, Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

Mae'r newid adran ac aelodaeth o'r Grŵp Data Cyhoeddus yn arwydd bod y Llywodraeth yn gweld y Gofrestrfa Tir a'i phartneriaid fel sefydliadau sydd â rolau allweddol i'w chwarae yn yr economi, gan gefnogi'n weithredol y blaenoriaethau canolog, sef twf economaidd a thryloywder data. Ein cyfraniadau cyntaf oedd rhyddhau dwy set o ddata am ddim i'w hailddefnyddio - Data Trafodiad a Data Pris a Dalwyd - sydd i'w cyhoeddi bob mis o hyn ymlaen gyda'n Mynegai Prisiau Tai o dan yr enw cyffredinol Data Tueddiadau'r Farchnad.

Newid arall sydd yr un mor hanesyddol yw penodi Mark Boyle fel Cadeirydd Anweithredol cyntaf erioed y Gofrestrfa Tir. Crëwyd y rôl mewn ymateb i adolygiad llywodraethu a nododd fwlch yn nhrefniadau goruchwylio'r Bwrdd Gweithredol a darparu cyfeiriad strategol. Mark yw Cadeirydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Roedd Jan Crosby, aelod o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr wedi ymuno â'r Bwrdd hefyd fel Cyfarwyddwr Anweithredol newydd, gyda phenodiadau pellach i ddod.

Roedd ein **Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig** yn dirwyn i ben yn 2011/12 wrth i nifer o'n cymheiriaid yn y Gwasanaeth Sifil gychwyn ar eu cynlluniau ailstrwythuro mewnol eu hunain. Fodd bynnag, roedd dal newidiadau mawr ac anghyffyrddus i'w gwneud ar brydiau ar draws y sefydliad, gyda chau ein swyddfeydd lleol yn Stevenage a Tunbridge Wells a rhedeg rhaglenni diswyddo gwirfoddol gyda gweithwyr a rheolwyr yn gorfod gwneud dewisiadau anodd.

Enillodd ein Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol (AD) Wobr y Gwasanaeth Sifil yn 2010 am y cymorth a rown i bobl a effeithir gan gau swyddfeydd a diswyddo. Roedd yr arbenigedd hwnnw ar gael i bawb a adawodd y Gofrestrfa Tir neu a gafodd eu hail-leoli neu eu hadleoli,

### High Speed 2

Roedd data'r Gofrestrfa Tir yn hanfodol i'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd â pherchnogion eiddo ar hyd llwybr arfaethedig y llinell reilffordd High Speed 2. Darparwyd Electronic Extent Data - hefyd yn cael eu galw'n bolygonau - i HS2 Cyf er mwyn iddo allu adnabod y bobl a allai gael eu heffeithio gan gam 1 y prosiect rhwng Euston (yn y llun) a Birmingham. Roedd y cwmni am wybod hefyd pwy oedd biau'r tir ar y llwybr lle mae adar mudol yn gaeafu fel arfer. Daeth y cam ymgynghori, a'r fforymau cymunedol a sefydlwyd mewn ardaloedd perthnasol, i ben gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn penderfynu bwrw ymlaen â'r llwybr arfaethedig ym mis Ionawr. Bydd tîm ymroddedig o'r Gofrestrfa Tir yn cydweithio â HS2 ar y camau nesaf.




Keith Gentry/Shutterstock.com

yn 2011/12. Os oedd gormod o geisiadau ar gyfer cynlluniau ymadael gwirfoddol, roedd rhaid i reolwyr flaenoriaethu ac ni chafodd pawb y canlyniad y byddent wedi'i ddymuno. Serch hynny, roedd tegwch a chwarae teg yn sail i bob penderfyniad a wnaed.

Roedd menter Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol i weithredu'r model AD Cenhedlaeth Nesaf cyn i nifer o'i chymheiriaid yn y llywodraeth wneud hynny wedi chwarae ei rhan wrth roi'r rhaglen trawsnewid ar waith. Mae'r strwythur o gael Canolfan Wasanaeth AD ganolog sy'n cefnogi rheolwyr llinell i ymdrin â phroblemau personol aelodau'r tîm, gyda phartneriaid busnes yn helpu gyda newid sefydliadol hirdymor, eisoes yn ei le yn y Gofrestrfa Tir. Mae tudalennau myHR ar y rhyngrwyd yn rhan annatod o hyn, gan wneud polisïau AD yn eglur ac yn hygyrch, gan gynnwys ym meysydd diswyddo, adleoli ac ail-leoli.

### Menter data am ddim

Mae'r pedwar aelod o'r Grŵp Data Cyhoeddus yn cydweithio i gynnig eu data i ddefnyddwyr ac ailddefnyddwyr am gost is neu am ddim. Mae'r Gofrestrfa Tir eisoes yn cyhoeddi dwy set ddata fisol am ddim o dan y fenter - Data Trafodiad a Data Pris a Dalwyd. Mae'r cyntaf yn rhoi gwybodaeth am nifer y ceisiadau a thrafodion cwsmeriaid a'r math o geisiadau a thrafodion, ac mae'r olaf yn rhoi'r pris data ar gyfer pob eiddo preswyl a werthir ag a gyflwynir i'w gofrestru. Cafodd y daenlen Data Pris a Dalwyd gyntaf, gyda manylion mwy na 56,000 o werthiannau ym mis Chwefror, eu llwytho i lawr 4,481 o weithiau yn ystod y tair wythnos gyntaf yn dilyn ei chyhoeddi.

Cofrestrfa Tir

Ordnance Survey®
www.ordnancesurvey.co.uk

Met Office


Companies House


# Golwg ar y flwyddyn hon

Roedd y rhaglen hefyd yn galw am drosglwyddo gwaith y swyddfeydd oedd yn cau i gydweithwyr eraill ar hyd a lled y wlad. Roedd hyn yn cynnwys rhai o'r prosiectau parhaus mwyaf cymhleth yn y sefydliad, megis cofrestru prydles llinell reilffordd High Speed 1. Roedd tîm yn Swyddfa Cymru wedi cymryd y gwaith hwn drosodd ac roedd y cofrestru llwyddiannus yn golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol werthu'r brydles am £2 biliwn. Unwaith eto roedd hyn yn dangos gallu'r Gofrestrfa Tir i reoli prosiectau ailstrwythuro ac ad-drefnu heriol.

Mae ein tîm **rheoli ystadau** wedi bod yn gweithio'n galed i werthu adeiladau swyddfa lleol gwag a phenderfynu dyfodol adeiladau gyda phrydlesi oedd yn dod i ben neu pan oedd cyfleoedd i ail-leoli wedi codi. Gwerthwyd Tŷ Bryn Glas a Storfa Ffeiliau Trefansel yn Abertawe am £3 miliwn a £0.2 miliwn yr un, gwerthwyd St Andrew's Court yn Portsmouth am £7.35 miliwn a Plumer House yn Plymouth am £2.85 miliwn. Bydd Castle Wharf House yn Nottingham yn gartref newydd Swyddfa Nottingham o hydref 2012 yn dilyn llofnodi'r brydles. Mae cartref presennol Nottingham, Chalfont Drive, ar werth gyda chaniatâd cynllunio i adeiladu tai.

Daw'r incwm o werthu'r eiddo yma ar adeg sy'n gweld y Gofrestrfa Tir mewn sefyllfa ariannol lawer gwell. Mae ein gwarged a gadwyd am y flwyddyn, sef £67.8 miliwn yn ganlyniad i raglen gyson o dorri costau ers 2007/8, i gost gwasanaeth a chostau gweinyddol. Gyda nifer y staff yn lleihau gan 44 y cant, mae ein costau staff wedi gostwng o £247.22 miliwn yn 2007/8 i £185.64 miliwn yn 2010/11 a £162.36 miliwn y flwyddyn hon.



**Contract cyfleusterau**

Dechreuodd Carillion gyflenwi'r contract allanol newydd ar gyfer gwasanaeth rheoli cyfleusterau yn Ebrill 2011. Mae tîm integredig o staff cyfleusterau a chaffael yn darparu gweithdrefn gadarn o reoli contractau sy'n monitro meysydd megis cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol, perfformiad yn erbyn lefelau gwasanaeth a gytunwyd a gwerth am arian unrhyw geisiadau am newid. Mae hyn wedi sicrhau bod y gwasanaeth allanol eisoes yn cyflenwi'r buddion cost sylweddol a ragwelwyd, gan gynnwys £3.6 miliwn yn 2011/12.



Mae cydweithio rhwng y tîm Caffael Corfforaethol a thimau eraill o fewn y Gofrestrfa Tir wedi creu arbedion sylweddol sydd wedi cyfrannu at leihad cyffredinol yn y gost gwasanaeth. Rydym wedi rhoi ein contractau rheoli cyfleusterau a rheoli'r storfa ffeiliau i'r cyflenwyr allanol Carillion a TNT ac wedi sicrhau bod ein contractau gyda phartneriaid megis IBM yn darparu'r gwerth am arian gorau posibl.

Unwaith eto gwahoddwyd contractwyr i fynychu cynhadledd flynyddol a gynhaliwyd am y tro cyntaf y tu allan i Lundain yn Swyddfa Coventry, i drafod y ffordd orau o gydweithio i greu arbedion a sicrhau cynaliadwyedd. Mae cyfathrebu wyneb-yn-wyneb yn amhrisiadwy ac roedd cynhadledd eleni yn fwy bywiog a chynhyrchiol nag erioed o'r blaen.

Rydym wedi cadw llygad barcud hefyd ar ddyledion, gyda lefel gyfredol dyledion hwyr yn llai na 0.01 y cant o'r trosiant. Mae ein timau cyllid a chyfreithiol yn cydweithio'n agos i wneud y penderfyniadau priodol ynghylch pryd i fynd ar ôl dyledion hwyr a phryd i'w datgan fel rhai anadferadwy.

Bydd yr **arbedion effeithlonrwydd** a wnaed yn cynnig modd i ni ostwng ein ffioedd gan gyfartaledd o oddeutu 10 y cant yn 2012/13. Dyma oedd ein bwriad ers i Orchymyn Ffioedd 2009 gynyddu ein ffioedd mewn ymateb i'r lleihad sylweddol yn ein hincwm o ganlyniad i'r dirywiad yn y farchnad eiddo. Golyga hyn y bydd perchnogion tai yn cael budd uniongyrchol o'n heffeithlonrwydd gwell.

Ein cwsmeriaid yw'r brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad a wnawn. Mae ein Strategaeth Cwsmeriaid yn amlinellu sut y bwriadwn ddarparu ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid am gost y gallwn ni a nhw ei fforddio. Mae pob aelod o staff wedi cymryd rhan mewn gweithdy rhyngweithiol ar y strategaeth, gan ddysgu beth y mae'n ei olygu iddyn nhw mewn egwyddor ac yn ymarferol.

Awgryma casgliadau ein harolygon bodlonrwydd cwsmeriaid ein bod yn gwneud cynnydd. Mae'r asiantaeth annibynnol Ipsos Mori yn cynnal arolwg o'n cwsmeriaid bob tri mis dros y ffôn, gan siarad ag o leiaf 1,200 bob blwyddyn. Yn ôl eu casgliadau mae'r sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol yn 97 y cant yn erbyn ein targed o 95 y cant, y lefel uchaf ers i'n harolwg annibynnol ddechrau yn 2007. Mae ein mesur ychwanegol Sgôr Hyrwyddwr Net, sy'n dangos sut mae ein cwsmeriaid yn teimlo am eu perthynas â ni, wedi cynyddu i 55 y cant o 38 y cant pan gafodd ei lansio gyntaf. Dros y flwyddyn derbyniwyd 2,193 o gwynion ac ymatebwyd i 92 y cant ohonynt o fewn ein targed o bum diwrnod.

Erbyn hyn mae **timau cwsmeriaid** yn nodwedd sefydledig a hollbwysig o'r ffordd rydym yn gwasanaethu ein cwsmeriaid. Yn y gorffennol byddai ceisiadau'n cael eu cyflwyno yn ôl lleoliad daearyddol, ond erbyn hyn mae'r 4,400 o gwmnïau sydd wedi cofrestru i gydweithio â thimau cwsmeriaid yn gweithio gyda'u tîm dynodedig yn unig yn un o'r swyddfeydd lleol. Mae chwe deg pump y cant yn dweud eu bod nhw wedi gwella'r gwasanaeth a gynigiwn. Mae'r timau yn meithrin perthynas bersonol â'u cwsmeriaid, gan ddod i adnabod eu busnesau a chydweithredu ar arferion gweithio gwell.

# Golwg ar y flwyddyn hon

### Timau cwsmeriaid

Mae Wilkin Chapman LLP ymysg y cwmnïau sy'n credu bod timau cwsmeriaid wedi bod yn fanteisiol i'w fusnes gan ddarparu un man cyswllt ar gyfer ei holl waith gyda'r Gofrestrfa Tir. Dywedodd Pennaeth Adennill Dyledion ac Ansolfedd, Chris Grocock, ei fod wedi meithrin perthynas waith dda â'i gynrychiolydd o'r tîm cwsmeriaid yn Swyddfa Hull ac erbyn hyn mae'r tîm yn deall ei fusnes a'i anghenion. "Mae'r ddealltwriaeth hon wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd drwy wella cyflymder a hwylustod adnabod a datrys problemau cofrestru tir cyn iddynt ac wrth iddynt godi," dywedodd Mr Grocock.




Prif Weithredwr y Weithrediaeth Cyfranddalwyr Stephen Lovegrove yn ymweld â thîm cwsmeriaid

Mae llwyth gwaith ein timau wedi parhau'n gyson ar y cyfan er bod prydlesi paneli solar wedi creu ymchwydd yn y galw. Roedd y cynnydd ym mhoblogrwydd gosod paneli solar o dan y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan wedi creu nifer gynyddol o brydlesi gwaredol cyntaf - cofrestriadau cyntaf o brydlesi yn deillio o deitlau cofrestredig - yn ystod ail hanner y flwyddyn. Roedd ein timau wedi wynebu'r her hon a heriau eraill gan fodloni ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cyflymder, ansawdd a chywirdeb.

Mae'r cofrestriadau a broseswyd dros y 12 mis diwethaf yn golygu bod nifer y teitlau ar y Gofrestr Tir yn fwy na 23 miliwn. Roedd cyfanswm o 194,037 o hectarau wedi ymddangos ar y gofrestr am y tro cyntaf, gyda chyfran ehangdir Cymru a Lloegr sydd wedi'i gofrestru ychydig dros 79 y cant.

Tra bod ein timau cwsmeriaid wedi trawsffurfio'r ffordd rydym yn prosesu ceisiadau papur, rydym wedi parhau i ehangu ein **gwasanaethau electronig** (e-wasanaethau).

**Nifer y prydlesi gwaredol cyntaf (fesul diwrnod)**



## Cofrestru'r Gemau Olympaidd

Dechreuwyd paratoi ar gyfer y gwaith enfawr a gynhyrchwyd gan Gemau Olympaidd 2012 cyn gynted ag y cyhoeddwyd enw Llundain fel y lleoliad buddugol. Roedd mwy na 90 y cant o gofrestriadau cysylltiedig â'r Gemau Olympaidd wedi cael eu cwblhau gan Swyddfa Stevenage pan drosglwyddodd ei brif waith prosiect i Swyddfa Cymru. Roedd tîm arbenigol yng Nghymru wedi cymryd yr awenau ar adeg hollbwysig, gan ganolbwyntio ar y ceisiadau oedd yn weddill ar gyfer y Parc Olympaidd a chofrestru prydlesi a rhent-daliadau 1,400 o'r 2,800 o fflatiau ym mhentref yr athletwyr. Am resymau diogelwch nid oedd gan y tîm yr wybodaeth arolygu safle arferol ac felly penderfynwyd cymryd y cam blaengar o ddibynnu ar luniadau penseiri a gafodd eu llwytho i lawr ar systemau'r Gofrestrfa Tir i greu'r cynlluniau teitl. Roedd Swyddfa Telford wedi cofrestru canolfan siopa Westfield drws nesaf i'r Parc Olympaidd.




© Llundain 2012

Mae e wasanaethau yn cynnig cyflymder, sicrwydd a chywirdeb gyda'r manteision ychwanegol o arbedion cost ac amgylcheddol a llwybr archwilio electronig sy'n helpu i frwydro yn erbyn twyll. Mae'r twf yn eu poblogrwydd yn golygu ein bod wedi derbyn mwy na thri chwarter o'n trafodion drwy ddulliau electronig dros y flwyddyn.

Mae e-wasanaethau Busnes ar gael i fwy na 14,000 o sefydliadau trwy ein porthol diogel. Gwnaethpwyd nifer o welliannau i'r gwasanaeth ar-sgrin yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu gwybodaeth gliriach a mwy o gyfleoedd i ryngweithio.

Mae Business Gateway yn cynnig y fantais ychwanegol o gyfathrebu uniongyrchol drwy'r rhyngrwyd rhwng ein systemau ni a system rheoli achos y cwsmer, sy'n golygu nad oes rhaid i'r wybodaeth a dderbynnir gael ei haildeipio neu ei dilysu ymhellach. Tan yn ddiweddar roedd y gwasanaeth wedi'i gyfyngu i nifer fach o gwsmeriaid ond disgwylir iddo fod yn fwyfwy poblogaidd ar ôl dileu'r ffi a godir i'w ddefnyddio ac ychwanegu gwasanaethau eraill.

**Trafodion e-wasanaethau (canran)**



# Golwg ar y flwyddyn hon

## Gwasanaeth arobryn

Roedd ein Gwasanaeth Register Extract wedi rhagori ar fentrau dau gwmni rhyngwladol gan ennill y wobr gyntaf yn y categori Delivering Business Value and E-commerce yn 8fed Gwobrau Real IT. Mae'n cynnig gwasanaeth cyflym ac effeithlon i gwsmeriaid sy'n archebu copïau swyddogol o gofrestri eiddo. Yn hytrach na derbyn dogfen i'w mewnbynnu i'w systemau â llaw, cânt ddata craidd o'r Gofrestr Tir yn uniongyrchol i'w systemau rheoli achos trwy Business Gateway. Dywedodd y beirniaid bod ein gwasanaeth yn: "Enghraifft wych o wasanaeth lle mae pawb ar ei ennill gan ddarparu gwerth i'r Gofrestrfa Tir a'i chwsmeriaid."




## Canmol Business Gateway

Norton Finance: "Y brif fantais i Norton Finance yw nad oes rhaid i'n gwarantwyr fwydo manylion y gofrestr â llaw mwyach. Mae hynny'n arbed amser a hefyd yn osgoi gwallau cyffredin. Mae cyflwyno'r gwasanaeth wedi symleiddio ein proses gwneud cais am fenthyciad, gyda chleientiaid yn croesawu cais cyflym a dibynadwy."



Rhoi gwelliannau i e-wasanaethau ar brawf gyda chwsmeriaid

Erbyn hyn rydym yn datblygu ein gwasanaeth newydd ar gyfer cofrestru e-ddogfennau (e-DRS) a fydd yn cynnig modd i gwsmeriaid gyflwyno cyfres o geisiadau yn electronig - gan gynnwys cofrestriadau safonol - sy'n cael eu hanfon ar bapur ar hyn o bryd.

Bydd cais a gyflwynir drwy e-DRS yn cael ei brosesu llawer yn gyflymach ar gyfartaledd na chais trwy'r post. Mae'r prototeip wedi cael ei brofi'n llwyddiannus gyda chwsmeriaid dethol a disgwylir lansio e-DRS trwy Business Gateway yn haf 2012.

Mae ein gwasanaethau masnachol Add Value ar gyfer gweithwyr proffesiynol, busnesau ac aelodau'r cyhoedd sydd am gael gwybodaeth bendant am eiddo a pherchnogaeth eiddo mewn fformatau hawdd eu defnyddio, gan eu helpu i reoli eu cofnodion, cadw golwg ar eu marchnadoedd ac adnabod cyfleoedd busnes. Bydd yr incwm yn mynd yn syth yn ôl i'r Gofrestrfa Tir i'w ail-fuddsoddi.

Eleni cynhyrchodd y gwasanaeth incwm o £4.9 miliwn - i fyny gan 13 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf - yn erbyn ein targed o £5.4 miliwn, gydag elw o 26 y cant yn erbyn targed o 14 y cant. Lansiwyd dau wasanaeth Add Value newydd, Volume Data Matching a Monitoring Services.

Mae ein gwasanaethau statudol ac Add Value yn defnyddio'r **mewnwelediad cwsmeriaid** sy'n llywio ein holl waith. Bydd ein tîm datblygu cynnyrch mewnol yn defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer ymchwil a datblygu, a phrofi cysyniad, felly bydd popeth rydym yn ei greu yn seiliedig ar anghenion cwsmeriaid. Yn ogystal â'n harolygon cwsmeriaid, ein hymgynghoriadau ffurfiol a'r cydweithio dyddiol rhwng ein cwsmeriaid a'n swyddogion gweithredol datblygu busnes a staff rheng-flaen eraill, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o Gyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir i roi barn gynnar ac arbenigol i ni ar ein syniadau a'n cynigion.

Yn hollbwysig i lwyddiant ein gwasanaethau electronig ac Add Value yw gwaith ein Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth sy'n datblygu ac yn rheoli ein systemau a'n gwasanaethau TG mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol gan gynnwys IBM, Steria a Logica. Gwnawn 500 o newidiadau, rhai bach a mawr, i'n systemau TG bob mis - gyda mwy na 98 y cant wedi'u gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r lefel hon o arbenigedd wedi sicrhau bod yr e-sianeli allanol, gan gynnwys ein gwefan, y porthol a Business Gateway, ar gael mwy na 99.5 y cant o'r amser y disgwylir iddynt fod ar gael.

Ym mis Rhagfyr llofnodwyd contract diwygiedig gwell gydag IBM i uwchraddio'r meddalwedd a ddefnyddiwn i weithredu ein cronfa ddata cofrestr ac ar gyfer gwaith achos ac e-wasanaethau. Bydd y contract tair blynedd, sy'n ymestyn ein perthynas 20 mlynedd ag IBM, yn creu arbedion o £4.3 miliwn dros gyfnod y contract. Yn sgil gwerth y contract, roedd rhaid cael cymeradwyaeth gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet Francis Maude er mwyn ei adnewyddu. Mae'n cynnwys darpariaethau newydd i gefnogi cynnal gwasanaethau i gyrff cyhoeddus eraill, gan sicrhau buddion ehangach i'r llywodraeth o'r buddsoddiad hwn.

Rydym yn un o lond llaw o adrannau'r llywodraeth sydd ag **achrediadau** Capability Maturity Model Integration (CMMI) ac ISO 20000. Cafodd y cyntaf ei adnewyddu a'r olaf ei ddyfarnu yn ystod y 12 mis diwethaf. ISO 20000 yw'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli gwasanaeth TG a chafodd ei ddyfarnu yn dilyn asesiad dau gam heriol oedd yn rhoi cyfle i ni ddangos ein bod yn dilyn arferion gorau y diwydiant TG.

Gyda chymaint o'n gwaith yn cael ei gyflenwi drwy sianeli electronig, rydym hefyd wedi ailwampio ein prif wefan er mwyn sicrhau ei bod yn gwasanaethu ein cwsmeriaid mor dda â phosibl. Mae'r cynnwys a'r llywio wedi cael eu newid, gydag adrannau penodedig wedi'u creu ar gyfer aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eiddo. Erbyn hyn mae'n gallu delio â'r amrywiadau yn y galw gan ymwelwyr, a thrwy gydweithio â'r cyflenwr Squiz, byddwn yn gwneud arbedion sylweddol drwy gynnal y safle 'yn y cwmwl'.

### Volume Data Matching

Data Matching yw ein Gwasanaeth Add Value mwyaf poblogaidd, gan gynhyrchu incwm o £880,202 yn 2011/12. Mae'n gwirio enwau a chyfeiriadau sy'n cael eu rhoi i ni yn erbyn ein cronfa ddata, gan gadarnhau a yw rhywun yn berchennog eiddo neu beidio. Drwy siarad â chwsmeriaid a darpar gwsmeriaid, cafodd ein swyddogion gweithredol datblygu busnes wybod bod rhai yn awyddus i allu anfon mwy o ddata nag y mae'r gwasanaeth yn ei ganiatáu. Roedd un newid bach eithaf syml wedi creu Volume Data Matching, sy'n gallu prosesu hyd at un filiwn o resi o wybodaeth dros nos. Roedd yr archeb gyntaf, gan gwmni oedd heb ddefnyddio gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir o'r blaen, yn werth £240,000.

## Golwg ar y flwyddyn hon

Mae **cyfryngau cymdeithasol** yn ddull hanfodol o gyfathrebu â'n cwsmeriaid erbyn hyn. Rydym yn trydar yn rheolaidd, gyda'n tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu feirniadaeth am ein gwasanaethau ar Twitter. Rydym hefyd wedi sefydlu tudalen gwmni ar LinkedIn, y rhwydwaith proffesiynol mwyaf yn y byd, sy'n caniatáu i ni gychwyn trafodaethau grŵp â chwsmeriaid a budd-ddeiliaid ar bynciau megis cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Cyhoeddwyd ein set ddata polygon INSPIRE ar ein gwefan ar ddiwedd Tachwedd, gan roi data o safon y Gofrestrfa Tir mewn ffenestr siop newydd ar draws Ewrop. Mae INSPIRE - Infrastructure for Spatial Information in Europe - yn fenter y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ceisio gwneud data gofodol yn fwy hygyrch. Mae cyhoeddi ein polygonau - cynrychiolaethau electronig o deitlau cofrestredig - wedi dilyn ymgyrch ar y cyd gan ein timau cywirdeb data i'w paratoi mewn pryd. Mae ein systemau mapio, sy'n hanfodol i'n gwaith achos, wedi cael eu diweddaru yn unol â chronfa ddata newydd yr Arolwg Ordnans drwy weithio â'n partner y Grŵp Data Cyhoeddus.

Mae **twyll cofrestru** yn anghyffredin iawn ond rydym yn cymryd y bygythiad o ddifrif. Mae ein mesurau gwrth-dwyll wedi atal twyll gwerth £52 miliwn ers Medi 2009. Yn 2011/12 talwyd £7.19 miliwn o'n Gronfa Indemniad ar gyfer 52 o geisiadau yn ymwneud â thwyll, i lawr o £7.37 miliwn ar gyfer 71 o geisiadau yn 2010/11. Cyfrifwyd am fwy na hanner y swm a dalwyd yn 2011/12 gan un taliad o £3.65 miliwn am achos o dwyll yn dyddio'n ôl i 2009.

Y cyfanswm a dalwyd o'n Gronfa Indemniad, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer camgymeriadau a hepgoriadau, oedd £9.27 miliwn, i lawr o £9.42 miliwn. Hefyd, adenillwyd £0.484 miliwn o dan ein hawliau digolledu.

Mae gwaith tîm gyda'n partneriaid a'n budd-ddeiliaid hefyd wedi chwarae rhan yn ein hymgyrch i atal twyll. Fe ymunon ni â'r 37 o sefydliadau eraill i lansio'r strategaeth *Brwydo twyll gyda'n gilydd* gan ein hymrwymo ni i gyd i gydweithio i atal ac amharu ar weithgareddau'r rhai sy'n twyllo.

Cafwyd enghraifft glir o lwyddiant y dull hwn o weithredu pan weithiodd y Grŵp Gwrth-dwyll â'r Heddlu Metropolitan yn ystod ei ymchwiliad i dwyll eiddo. Gweithredwyd ar unwaith i ddiogelu buddiannau perchnogion cofrestredig yr eiddo yr oedd amheuon eu bod yn dargedau twyll, a sicrhau nad oedd unrhyw eiddo arall yn agored i'r un math o ymosodiad. Yn anffodus, am y tro cyntaf erioed yn ein hanes, arweiniodd yr ymchwiliad hwn at ddedfrydu a charcharu gweithiwr y Gofrestrfa Tir am droseddau twyll.

Mae ein hymgyrch *Gwarchod eich eiddo* wedi cynghori perchnogion tai agored i niwed sut y gallant leihau'r risgiau, gyda'r gwasanaeth ffurflen RQ newydd yn cael ei ychwanegu eleni.

Mae'r Pwyllgor Rheolau yn darparu cyngor a chymorth allanol ar **newidiadau i'n rheolau** ac felly roedd rôl allweddol ganddo i'w chwarae pan gafodd y rheolau eu hailddrafftio i ystyried y strwythurau busnes eraill a gyflwynwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol. Y prif effaith oedd newid y diffiniad o drawsgludwr sy'n rhedeg drwy ein holl reolau.

Roedd y pwyllgor wedi archwilio'r drafft yn fanwl cyn i ni ei gyflwyno i'n gweinidogion. Roedd cynrychiolwyr o'r Gofrestrfa Tir wrth law i helpu'r gweinidogion pan gafodd y rheolau eu trafod gan bwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Pan gafodd y rheolau eu mabwysiadu diwygiwyd ein holl ddeunyddiau ymarfer.

**Menter wrth-dwyll**

Mae defnydd creadigol o'n rheolau wedi caniatáu i berchnogion tai nad ydynt yn byw yn eu heiddo wneud cais, drwy ddefnyddio ffurflen RQ, i gofnodi cyfyngiad amddiffynnol yn eu cofrestr heb orfod talu unrhyw ffi. Mae'r cyfyngiad yn ei gwneud hi'n ofynnol i drawsgludwyr ardystio mai'r sawl sy'n gwerthu neu'n morgeisio'r eiddo yw'r gwir berchennog, gan roi mwy o dawelwch meddwl i berchnogion absennol. Ers lansio'r gwasanaeth rydym wedi derbyn mwy na 30 o geisiadau bob dydd.



### Cymorth i Bermwda

Mae system drawsgludo Bermwda yn cael ei rheoli gan gyfraith eiddo Lloegr o'r 17eg ganrif ac nid yw wedi newid rhyw lawer ers 400 o flynyddoedd nes i Lywodraeth Bermwda droi at y Gofrestrfa Tir i helpu i greu system fodern o gofrestru teitl tir. Mae sawl arbenigwr o'r Gofrestrfa Tir wedi bod yn cymryd rhan yn y prosiect, gyda rhai yn treulio hyd at dair blynedd ar secondiad ar yr ynys. Daeth y cyfan i ben ym mis Rhagfyr 2011 pan wahoddwyd Richard Fearnley, Cofrestrydd Tir Swyddfa Penbedw, i fod yn bresennol am yr ail ddarlleniad o'r Mesur Cofrestru Teitl Tir yn Senedd Bermwda. Roedd Richard wedi drafftio'r ddeddfwriaeth a helpu Gweinidog yr Amgylchedd yn ystod y ddadl a throi'r Mesur yn ddeddf.



Richard Fearnley (trydydd i'r chwith) gyda staff o Swyddfa Cofrestrfa Teitl Tir Bermwda

Rydym wedi parhau i chwarae ein rhan yn **rhyngwladol**. Fel aelod gweithgar o Gomisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweithgor Ewrop ar Weinyddu Tir, rydym yn paratoi at gynnal ei gynhadledd flynyddol yn Llundain ym mis Hydref. Rydym hefyd yn chwarae rôl amlwg yn y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (EULIS) a'r Gymdeithas Cofrestru Tir Ewropeaidd (ELRA). Mae'r Cofrestrydd Tir Cynorthwyol Chris Pitt-Lewis wedi ymuno â bwrdd ELRA, gan roi mewnwelediad cynnar i ni o gyfarwyddebau Ewropeaidd.

Rydym hefyd wedi defnyddio ein harbenigedd i helpu gwledydd ledled y byd gyda phrosiectau cysylltiedig â chofrestru tir. Mae'r Cofrestrydd Tir Cynorthwyol Patrick Milne yn rhoi cymorth parhaus i Lysgenhadaeth Prydain a Llywodraeth Columbia yn Bogotá wrth ddatblygu sicrwydd deiliadaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar helpu pobl a ddadleolwyd yn fewnol a brodorion. Roedd Barbara Massey o Capability Group wedi cynorthwyo'r fenter i wella sgiliau TG staff yn y Weinyddiaeth Tiroedd, Tai a Datblygiad Trefol yn Uganda. Croesawyd gwesteion ar ymweliadau astudio hefyd o Rwsia, Fietnam, Mongolia, Afghanistan a Bangladesh ymhlith gwledydd eraill.

Mae ein **gweledigaeth a gwerthoedd** – Parch, Atebolrwydd, Un Gofrestrfa Tir, Cyflawni pethau a Meddwl am y Dyfodol - yn hollbwysig i'r ffordd y byddwn yn cefnogi, ymgysylltu a rheoli ein pobl. Cawsant eu corffori'n gadarn yn ein proses rheoli perfformiad a recriwtio, gan bwysleisio bod 'sut' y bydd pobl yn gwneud eu gwaith yr un mor bwysig â 'beth' y maent yn ei wneud.

Rydym wedi cytuno ar Strategaeth Pobl a'i gweledigaeth o gael "pobl ymrwymedig a hyblyg sydd â'r gallu a'r agweddau i ateb anghenion ein cwsmeriaid". Fel rhan o hyn mae ein Strategaeth Galluogrwydd yn cysylltu â Civil Service Learning i fanteisio ar arbenigedd ar draws y llywodraeth, ac mae ein ffocws ar iechyd a lles wedi helpu i ostwng ein lefel absenoldeb salwch i 7.4 diwrnod y person ar gyfartaledd, i lawr o 8.1 yn 2010/11.

Mae rheolwyr ac undebau llafur yn parhau i gydweithio'n agos. Mae cytundeb ymgynghori newydd wedi cael ei lunio i greu fframwaith ar gyfer y berthynas, egluro'r lefelau a'r dulliau ymgysylltu, diffinio rolau a chyfrifoldebau a chytuno ar broses datrys anghydfod. Llofnodwyd y cytundeb ym mis Chwefror 2012 a daeth i rym ar 1 Ebrill.

Y cytundeb ymgynghori yn cael ei lofnodi gan Gadeirydd Ochr yr Undebau Llafur Adrannol Michael Kavanagh (canol) a'r Prif Weithredwr Malcolm Dawson (ar y dde)



# Golwg ar y flwyddyn hon

Mae lefelau ymgysylltu â gweithwyr wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf o newid mawr ond gwnaethpwyd ymdrech barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf i'w gwella. Yn ogystal â'r arolwg staff blynyddol cynhelir arolygon 'Pwls' ddwywaith y mis sy'n helpu rheolwyr i geisio barn y rhai ar lawr gwlad. Mae pob aelod o staff wedi mynychu sesiwn ar ddyfodol y Gofrestrfa Tir o'r enw Y Ffordd Ymlaen gan annog trafodaethau a chyfranogiad. Mae dulliau cyfathrebu amrywiol o flogiau i sesiynau 'cwrdd â'r cyfarwyddwr' yn golygu bod y timau ym mhob cyfarwyddiaeth yn gwybod beth sydd ym meddyliau eu rheolwyr.

Mae **ein polisïau amrywiaeth** wedi symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar y canrannau o bobl mewn categorïau amrywiol i sicrhau cyfleoedd teg i bob un o'n staff presennol. Mae ein cwrs Pathways a grëwyd i helpu gweithwyr duon a lleiafrifoedd ethnig i fanteisio ar gyfleoedd hyrwyddo wedi ehangu i gynnwys unrhyw un o grŵp sydd heb ei gynrychioli'n ddigonol. Mae tri grŵp ffocws amrywiaeth sefydledig gennym sydd wedi dechrau cwrdd ar y cyd erbyn hyn, gan gydnabod bod rhai materion uwchlaw eu ffiniau.

Mae gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol yn parhau i fod yn nodwedd bwysig o fywyd y Gofrestrfa Tir, gyda phobl yn cymryd rhan ar lefel leol a chenedlaethol. Roedd y digwyddiad blynyddol Her y Gofrestrfa Tir wedi gweld llu o bobl yn cerdded y Mendip Way, tra bo cannoedd mwy wedi teithio i Nottingham ar gyfer diwrnod mabolgampau ac roedd y nifer fwyaf erioed wedi cofrestru i gymryd rhan yn ein cystadlaethau celfyddydau a ffotograffiaeth. Daeth 'aelodau oes' sydd wedi ymddeol at ei gilydd i fwynhau eu cinio rheolaidd yn Llundain, gan ddangos y teyrngarwch y gall y sefydliad ei ysbrydoli.

**Ymgyrch Respect**

Mae'r ymgyrch Respect wedi cael ei chreu i hyrwyddo un o werthoedd craidd y Gofrestrfa Tir er budd pawb. Roedd posteri gydag aelodau'r Bwrdd, uwch reolwyr, aelodau o'r grŵp amrywiaeth a chynrychiolwyr undebau wedi trosglwyddo'r neges bod parch yn golygu rhywbeth gwahanol i bob unigolyn ond ei fod yn hanfodol i'r ffordd rydym yn trin ein gilydd a'n cwsmeriaid.



Cafodd digwyddiadau elusennol a phrosiectau amgylcheddol eu cefnogi'n dda hefyd. Rhown absenoldeb arbennig i bobl sy'n cynnig **gwirfoddoli**, er enghraifft pan dreuliodd grŵp o Swyddfa Telford ddiwrnod yn clirio coed a phrysg mewn hafan bywyd gwyllt yng Nghanolbarth Lloegr mewn cydweithrediad â'n partner cyfleusterau Carillion. Mae pobl o swyddfeydd o bob rhan o'r wlad wedi gwirfoddoli i gynorthwyo yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd dros yr haf.

Ymysg yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y flwyddyn i ddod mae datblygu'r prosiect Perfformiad ac Arloesi ymhellach. Dyma ein fersiwn ni o'r athroniaeth Lean, gan geisio lleihau a dileu gwastraff a dyblygu drwy ddefnyddio syniadau ac arbenigedd ein timau i wella eu systemau a'u prosesau. Rydym wedi treialu'r prosiect gydag un grŵp ac mewn dwy swyddfa leol ac, ar ôl adolygu'r fethodoleg yn dilyn eu hadborth, byddwn yn ei gyflwyno mewn swyddfa weithredol lawn.

Rydym hefyd yn creu ein **Strategaeth Busnes** newydd, a fydd yn amlinellu sut y gallwn gefnogi twf economaidd a sicrhau'r defnydd gorau o'n data gan barhau i fodloni ein cyfrifoldebau statudol yr un pryd a sicrhau mwy o effeithlonrwydd.

Mae Strategaeth Amrywiaeth gennym yn ei lle eisoes ac rydym wedi bod yn paratoi cynnig i gyflenwi chwiliadau Pridiannau Tir Lleol fel rhan o'n gwasanaethau gwybodaeth. Mae ymchwil helaeth gyda chwsmeriaid a budd-ddeiliaid wedi dangos bod galw am gronfa ddata wedi'i digido a phroses safonol ar gyfer chwiliadau Pridiannau Tir Lleol. Y cam nesaf yn ôl pob tebyg fydd prawf o gysyniad gyda Gwasanaeth Digidol y llywodraeth a'r awdurdodau lleol sy'n cyflenwi'r chwiliadau ar hyn o bryd.



Gwirfoddolwyr o Swyddfa Telford yn clirio coed o hafan bywyd gwyllt

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr



**Catherine Raines**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**Jan Crosby**
Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae adroddiad y cyfarwyddwyr yn cael ei baratoi yn unol â Phennod 5 o ddogfen Trysorlys EM *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2011/12: Ffurf a chynnwys yr adroddiad blynyddol a chyfrifon*. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i adroddiad y cyfarwyddwyr gynnwys manylion y cyfarwyddwyr, sylwebaeth rheolwyr, adroddiad cynaliadwyedd a chynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r adroddiad cynaliadwyedd yn cael ei baratoi yn unol â dogfen Trysorlys EM *Adroddiadau Cynaliadwyedd: Canllawiau ar gyfer 2011/12*.

## (a) Manylion y cyfarwyddwyr

Ar 18 Gorffennaf cyhoeddodd y Llywodraeth ei newidiadau yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau. Daeth y Gofrestrfa Tir yn aelod sylfaenol o'r Grŵp Data Cyhoeddus o gronfeydd masnachu.

**Bwrdd y Gofrestrfa Tir**

Mae dau brif fwrdd rheoli'r Gofrestrfa Tir yn gyfrifol am lywodraethu, atebolrwydd cyhoeddus, rheolaeth strategol a rheoli o ddydd i ddydd.

Mae cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn un goruchwyliol yn bennaf. Mae'r Bwrdd yn gosod strategaeth gyffredinol y Gofrestrfa Tir ac yn helpu'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredol Malcolm Dawson yn ei gyfrifoldeb a'i atebolrwydd pennaf dros lywodraethu a pherfformiad da y Gofrestrfa Tir.

Penodwyd Cadeirydd Anweithredol annibynnol cyntaf y Bwrdd, Mark Boyle, ym mis Hydref 2011 gyda mandad i weithio gyda'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr i adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd a gwella ei effeithiolrwydd fel bwrdd.

Dechreuodd y Bwrdd y flwyddyn ariannol drwy gwrdd bob tri mis, ond oherwydd y newidiadau llywodraethu mae'n cwrdd bob mis bellach (ac eithrio ym mis Awst a mis Rhagfyr) ar ddydd Mawrth olaf y mis. Cyfarfu wyth gwaith yn 2011/12. Cynhaliwyd cyfarfodydd strategaeth bob tri mis hefyd.

Mae recriwtio'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer dau gyfarwyddwr anweithredol newydd i ymuno â'r Bwrdd, a'r bwriad yw cael cydbwysedd eang o gyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd gyda'i gyfansoddiad newydd ar 23 Chwefror 2012 ac mae ei aelodaeth fel a ganlyn erbyn hyn.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr |
| Jan Crosby | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid |

**Bwrdd Gweithredol**
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyflenwi Cynllun Busnes blynyddol y Gofrestrfa Tir ac am reoli gweithrediad y busnes o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis a chyfarfu 12 o weithiau yn ystod y flwyddyn.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Malcolm Dawson OBE (Cadeirydd) | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| John Wright | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| Annette Davies-Govett | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid |
| Katie Gordon-Smith | Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid[1] |
| David Evans | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |

[1] Darparodd Katie Gordon-Smith wasanaeth dros dro o ddechrau'r flwyddyn ariannol tan Awst 2011.



**Annette Davies-Govett**
Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid



**John Wright**
Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Pwyllgor Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi gwaith Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheolaeth, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, safonau allanol a gofynion statudol.

**Aelodaeth**

| | |
|---|---|
| Catherine Raines (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Vaughan Williams | Aelod anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio |
| John Wright[1] | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| David Cleasby[1] | Pennaeth y Grŵp Gweithrediadau Canolog a Rheolwr Ardal |

[1] Yn mynychu yn rhinwedd aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, nid fel aelod o staff gweithredol.

**Mynychwyr**
Mae'r canlynol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio:

| | |
|---|---|
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Mandy Measures | Cyfarwyddwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

**Pwyllgor Tâl ac Enwebu**
Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y strategaeth tâl ac yn awdurdodi'r adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff Uwch Wasanaeth Sifil y Gofrestrfa Tir ac yn cytuno ar strategaeth ar gyfer olyniaeth i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.

**Aelodaeth[1]**

| | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol |
| Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr |

[1]Caiff yr aelodaeth ei hehangu i gynnwys un o'r cyfarwyddwyr anweithredol newydd.

## (b) Perfformiad busnes

**Dangosyddion perfformiad allweddol**

Mae'r canlyniadau yn erbyn ein targedau Cynllun Busnes cyhoeddedig i'w gweld isod.

| | Targed DPA | Perfformiad |
|---|---|---|
| | **Cwsmeriaid** | |
| | *Adnabod, rhagweld a bodloni anghenion cwsmeriaid drwy fireinio a datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli yn gyson* | |
| C1 | Targed bodlonrwydd cwsmeriaid 95% | Cyflawnwyd 97% |
| C2 | Datblygu a gweithredu'r gallu erbyn 31 Mawrth 2012 i:<br>(i) cyflenwi'r chwe trafodiad delio mwyaf poblogaidd yn electronig | Heb ei gyflawni |
| | (ii) gweld y map mynegai ar-lein | Cyflawnwyd |
| | (iii) cynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael ar Business Gateway | Cyflawnwyd |
| | (iv) gwella llywio ar-lein sythweledol | Cyflawnwyd |
| C3 | Argaeledd e-sianel allanol: targed>99% | Cyflawnwyd 99.6% |
| C4 | Cynyddu refeniw Add Value gan o leiaf 25% dros ganlyniad 2010/11 (sef £4.3m) gyda lleiafswm cyfraniad net o 14% | Heb ei gyflawni £4.9m |
| | **Ansawdd** | |
| | *Gwella cyflenwi gweithredol yn barhaus er mwyn ysgogi mesurau effeithlonrwydd, ansawdd a gwerth* | |
| A1 | Cyflymder gwasanaeth: canran y cofrestriadau a broseswyd o fewn 12 diwrnod gwaith: targed 80% | Cyflawnwyd 86.9% |
| A2 | Ansawdd gwasanaeth: canran y cofrestriadau sy'n cyrraedd y safonau ansawdd mewnol: targed 97% | Cyflawnwyd 97.3% |
| A3 | Ansawdd gwasanaeth: canran y cofrestriadau a gwblhawyd sydd angen eu cywiro: targed<1.5% | Cyflawnwyd 1.3% |
| A4 | Ansawdd gwasanaeth: canran y newidiadau llwyddiannus a wnaed i wasanaethau electronig: targed 95% | Cyflawnwyd 98.8% |
| | **Arloesi** | |
| | *Adeiladu sefydliad hyblyg ac effeithlon er mwyn i ni allu ymateb i amrywiadau yn y farchnad ac anghenion newidiol cwsmeriaid ac adnabod a gweithredu ar gyfleoedd datblygu i'r Gofrestrfa Tir* | |
| Ar1 | Cyflwyno methodoleg gwelliant parhaus ar gyfer perfformiad ac arloesi mewn dwy swyddfa weithredol ac ehangu defnydd yn Adnoddau Dynol erbyn 31 Mawrth 2012 | Cyflawnwyd |
| Ar2 | Cwblhau Cam 1 y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig erbyn 31 Rhagfyr 2011 | Cyflawnwyd |
| Ar3 | Corffori'r gwerthoedd a'r ymddygiadau newydd mewn prosesau rheoli perfformiad unigol a recriwtio erbyn 31 Mawrth 2012 | Cyflawnwyd |
| Ar4 | Canran y staff sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Gofrestrfa Tir: targed 50% | Heb ei gyflawni 45% |
| | **Cyllid** | |
| | *Cyrraedd yr holl dargedau ariannol ac effeithlonrwydd gan ariannu ein rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol* | |
| Cy1 | *Enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd: targed 3.5% | Cyflawnwyd 19.7% |
| Cy2 | **Cost yr uned mewn termau arian parod: targed £29.33 | Cyflawnwyd £27.16 |

parhad

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

*Yn 2011/12 diwygiwyd y Datganiad o Sefyllfa Ariannol i ddatgelu'r Gronfa Indemniad fel darpariaeth. O ganlyniad mae asedau net wedi lleihau, sy'n cynyddu'r enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd fel y dangosir ar dudalen 27. O dan yr hen ddatgeliad byddai'r enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn 18.5 y cant. Fe'i cyfrifir yn unol â Chofnod y Trysorlys.

**Yn 2011/12 cyflwynodd y Gofrestrfa Tir systemau gwell ar gyfer adroddiadau llwyth achos. O ganlyniad cyflwynwyd newidiadau i'r rhifau llwyth gwaith wedi'i bwysoli, gyda'r canlyniadau fel y dangosir ar dudalen 27. Gan ddefnyddio'r hen systemau cyfrif byddai cost yr uned yn £29.25 yr uned (£18.90 real).

**Sylwebaeth**

Cyflawnwyd 11 o'r 14 o dargedau yn ystod blwyddyn heriol pan wnaeth ein Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig gwblhau ein hymateb i'r cwymp yn y farchnad dai.

Gwnaethpwyd penderfyniad bwriadol i beidio â chwblhau'r gwaith o gyflenwi ein chwe trafodiad delio mwyaf poblogaidd yn electronig (C2(i)) yn dilyn adborth ar y prosiect gan gwsmeriaid. Yn lle hynny mae'r targed hwn wedi cael ei ehangu i ateb anghenion ein cwsmeriaid ar gyfer gwasanaeth cofrestru dogfennau electronig ehangach a bwriedir ei osod fel targed ar gyfer 2012/13. Cyflawnwyd y tri phrosiect arall o fewn y targed hwn.

Roedd ein refeniw Add Value i fyny 13 y cant i £4.9 miliwn ond ni chyrhaeddwyd y targed refeniw (C4) gan 9.7 y cant. Rhagorwyd ar y targed elw gan 12 y cant.

Ni wireddwyd ein targed i sicrhau 50 y cant o ymgysylltu cadarnhaol â'r staff (Ar4), gan gyflawni 45 y cant. Rydym yn ymrwymedig i wella ymgysylltu â staff.



**Heather Foster**
Cyfarwyddwr Cyllid



## (c) Adroddiad cynaliadwyedd

Mae adroddiadau cynaliadwyedd yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn dangos ein perfformiad yn erbyn targedau'r Llywodraeth ac yn erbyn gofynion ein Systemau Rheoli Amgylcheddol ein hunain. Mae adrodd yn digwydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys yn y cyfrifon blynyddol, drwy ePIMS (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo electronig), ac fel rhan o'r adroddiadau cynaliadwyedd cyffredinol i'r Llywodraeth, drwy'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ac fel y bo'n ofynnol gan y Pwyllgor Llywodraethu Materion Gwyrdd.



**Crynodeb o berfformiad**

Gwelwyd gostyngiad o 17 y cant mewn allyriadau carbon o'n swyddfeydd yn ystod targed y Prif Weinidog o leihau allyriadau carbon gan 10 y cant a ddaeth i ben ym Mai 2011. Rydym wedi parhau i weithio tuag at gyflawni targedau'r Pwyllgor Llywodraethu Materion Gwyrdd erbyn Mawrth 2015, ac mae ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn cydymffurfio â gofynion y Pwyllgor o ran allyriadau carbon. Mae ein ffigurau'n cynnwys carbon o bob math o deithio nid yn unig teithio ar y ffordd fel yr adroddwyd yn 2010/11.



| Maes | Perfformiad | |
|---|---|---|
| **Ynni: yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob maes** | Gwirioneddol | Targed lleihau 25% 2015 |
| Allyriadau carbon (tunelli) | 11,211 | 10,221 |
| Gwariant (£) | £2,227,103 | - |
| **Gwastraff** | | |
| Defnydd (tunelli) | 1,689 | 1,718 |
| Gwariant (£) | £417,039 | - |
| **Dŵr** | | |
| Defnydd ($m^3$) | 38,451 | 42,911 |
| Gwariant (£) | £374,878 | - |

Sylwch: mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad, ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

parhad

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | | |
| **Dangosyddion anariannol (tunelli o $CO^2$ cyfatebol)** | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer meysydd 1 a 2 | 11,211 | 13,937 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 2,754 | 2,426 |
| Cyfanswm allyriadau **net** ar gyfer meysydd 1 a 2 (h.y. wedi dileu elfennau adnewyddadwy) | 8,457 | 11,511 |
| Allyriadau gros maes 3 teithio | 814[1] | 383 |
| **Cyfanswm gros o allyriadau a gofnodwyd** | **12,025** | **14,320** |
| | | |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | |
| Trydan: wedi'i brynu (grid, gwres a phŵer cyfunedig ac anadnewyddadwy) | 16,433 | 19,060 |
| Trydan: adnewyddadwy | - | - |
| Nwy | 12,521 | 15,634 |
| Ffynonellau ynni eraill | - | - |
| **Cyfanswm ynni** | **28,954** | **34,694** |
| | | |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| Gwariant ar ynni | 2,227 | 2,333 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | 140 | - |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,216 | 1,103 |

[1]Mae allyriadau gros maes 3 yn cynnwys pob math o deithio. Dyma'r tro cyntaf i deithio ar y rheilffordd a hedfan gael eu hychwanegu at deithio ar y ffordd.
Sylwch: mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad, ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| **Gwastraff** | | |
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | | |
| *Gwastraff peryglus* | | |
| Gwastraff peryglus | 1 | 31 |
| *Gwastraff nad yw'n beryglus* | | |
| Gwastraff tirlenwi | 614 | 531 |
| Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 1,074 | 1,367 |
| Ynni o wastraff | - | 26 |
| **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **1,689** | **1,955** |
| | | |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| *Gwastraff peryglus* | | |
| Gwastraff peryglus | - | 6 |
| *Gwastraff nad yw'n beryglus* | | |
| Gwastraff tirlenwi | 152 | 104 |
| Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 265 | 268 |
| Gwastraff a losgwyd | - | 5 |
| **Cyfanswm costau gwastraff** | **417** | **383** |

Sylwch: mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad, ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| **Dŵr** | | |
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | |
| Defnydd | | |
| Wedi'i gyflenwi | 38,451[1] | 54,644 |
| Wedi'i dynnu | - | - |
| **Cyfanswm defnydd** | **38,451** | **54,644** |
| | | |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwi** | **374** | **239** |

[1]Nid oedd peth gwybodaeth gyfyngedig am ddŵr ar gael pan luniwyd yr adroddiad.

Sylwch: mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad, ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

parhad

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Adroddiad cynaliadwyedd (parhad)

**Strategaeth amgylcheddol ar gyfer y dyfodol**
Rydym yn parhau i weithio tuag at gyflawni targedau'r Pwyllgor Llywodraethu Materion Gwyrdd, gan gydweithio'n agos â'n partneriaid busnes i sicrhau gwelliannau mewn gweithredu a rheoli adeiladu a'n hisadeiledd TG. Cawn wybodaeth am welliannau posibl yn y dyfodol fel rhan o'n harolwg ar gyflwr adeiladau, gyda'r adroddiadau'n nodi'r safleoedd sydd â'r potensial ar gyfer gwelliant cynaliadwyedd drwy gyflwyno technolegau cynaliadwy a chasglu ac ailddosbarthu dŵr glaw.

Yn 2012/13 byddwn yn mabwysiadu ein dangosydd perfformiad allweddol cyntaf sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad cynaliadwyedd, gan ganolbwyntio ar darged carbon y Pwyllgor Llywodraethu Materion Gwyrdd.

**Addasu i newid hinsawdd**
Caiff ein Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2012 yn unol â'r argymhellion a ragwelir yn yr arolwg ar gyflwr adeiladau.

**Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol**
Anogwn welliannau mewn bioamrywiaeth ac mewn sawl lleoliad swyddfa mae'r tiroedd yn cael eu rheoli i hyrwyddo bioamrywiaeth well yn effeithiol. Mae cyfle cyfyngedig ar gyfer gwelliannau i fioamrywiaeth mewn nifer o'r lleoliadau, ond os yw potensial yn cael ei adnabod rydym yn gweithio â darparwyr cynnal a chadw tir i gyflawni hyn.

**Caffael cynaliadwy**
Rydym wedi datblygu'r model asesu "Fframwaith Hyblyg" ymhellach. Mae asesiad llawn o holl gategorïau'r fframwaith wedi cael ei gwblhau, hyd at a chan gynnwys Lefel 3, ac mae Cynllun Gweithredu Gwella manwl wedi cael ei roi ar waith i ysgogi dilyniant parhaus ar hyd y daith hon.

Mae archwiliad diweddar o Gaffael Cynaliadwy wedi dangos bod y gwaith sy'n mynd rhagddo gydag un o'n prif gyflenwyr, gan gynnwys cynnal digwyddiad llwyddiannus ar y cyd ar y gadwyn gyflenwi gynaliadwyedd, yn gosod patrwm i'w ddilyn, ac mae'r model hwn yn cael ei gyflwyno i'w ddefnyddio gyda chyflenwyr sylweddol eraill. Mae rheolwyr contractau yn cydweithio'n rhagweithiol bellach â'u cyflenwyr i hyrwyddo a symud yr agenda gynaliadwyedd ganolog yn ei blaen, gan gynnwys y Pwyllgorau Llywodraeth Materion Gwyrdd a mabwysiadu Safonau Prynu'r Llywodraeth.

**Pobl**
Mae lles staff yn cael ei hyrwyddo drwy gyfuniad o:

- sgrinio iechyd bob tair blynedd
- darparu gwybodaeth iechyd a lles drwy ymgyrchoedd hybu iechyd (lleol ac adrannol) ac yn fwy cynhwysfawr drwy'r tudalennau iechyd a lles ar y fewnrwyd
- polisïau i gefnogi lles staff, megis oriau hyblyg ac absenoldeb arbennig
- darparu Gwasanaeth Cymorth Gweithwyr a Rheolwyr i helpu staff i ddelio â phroblemau
- darparu cyfleusterau a dosbarthiadau ymarfer corff neu therapïau amgen mewn rhai lleoliadau
- darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

Bydd ein strategaeth iechyd, lles a phresenoldeb yn ceisio dod â gweithgareddau iechyd a lles at ei gilydd a'u hehangu fel y bo'n briodol.

**System Rheoli Amgylcheddol**
Mae ein System Rheoli Amgylcheddol achrededig wedi bod yn ei lle ers Ionawr 2011 ac mae'n cwmpasu'r swyddfeydd a'r ystad arall. Mae archwiliadau allanol yn Awst 2011 ac Ionawr 2012 yn cadarnhau bod ein gweithgareddau'n cydymffurfio â gofynion safon ISO 14001 a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy'r System Rheoli Amgylcheddol.

**Llywodraethu**
Mae ein perfformiad yn cael ei archwilio'n fewnol ac yn allanol. Mae gwybodaeth am y defnydd o drydan a nwy yn cael ei chymryd yn uniongyrchol o anfonebau cyflenwyr a'u gwirio yn erbyn darlleniadau mesuryddion sy'n cael eu cymryd yn fisol gan Carillion. Mae'r data yn cael ei gasglu a llunnir adroddiadau yn unol â gofynion y Pwyllgor Llywodraethu Materion Gwyrdd a'u cofnodi ar ePIMS bob mis fel y bo angen.

Rydym hefyd yn rheoli cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol drwy Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd drwy'r Rheolwr Cynaliadwyedd gan yr uwch bartneriaid busnes cyfleusterau a Carillion.

## (ch) Sylwebaeth rheolwyr/ adolygiad ariannol

**Cyflwyniad/hanes**

Mae ein hanes a'n statws fel cronfa fasnachu i'w gweld ar dudalen 7.

Ar 18 Gorffennaf 2011 trosglwyddodd cyfrifoldeb am y Gofrestrfa Tir o'r Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau (gweler tudalen 38).

Y Gofrestrfa Tir oedd un o sylfaenwyr y Grŵp Data Cyhoeddus o gronfeydd masnachu, ynghyd â'r Swyddfa Dywydd, Arolwg Ordnans a Thŷ'r Cwmnïau. Bydd y Grŵp Data Cyhoeddus yn cefnogi mesurau data agored y Llywodraeth a amlinellir yn Natganiad yr Hydref.

**Prif weithgareddau**

Mae ein prif weithgareddau i'w gweld ar dudalen 7.

**Archwilwyr**

Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Cost y gwaith archwilio hwn ar gyfer 2011/12 oedd £67,500 (2010/11: £67,500). Mae'r gost yn ymwneud â gwasanaethau cysylltiedig â'r archwiliad statudol.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylasai fod wedi'i gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Pensiynau**

Fe welwch fanylion am gostau a rhwymedigaethau pensiwn a sut y cânt eu trin yn y cyfrifon yn nodiadau 1.6 a 4.4 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl.

**Taliadau**

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn talwyd 90.5 y cant o anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr o fewn pum diwrnod gwaith. Nid yw'r canrannau hyn yn cynnwys anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch.

**Prif risgiau ac ansicrwydd**

Mae'r Gofrestrfa Tir yn wynebu heriau a risgiau i gyflawni ei hamcanion busnes strategol. Mae risgiau strategol yn canolbwyntio ar warchod cywirdeb y gofrestr, cyflawni agweddau allweddol o'n Strategaeth Cwsmeriaid, y sgiliau allweddol sydd ar gael a'r gallu i ymdopi ag amrywiadau mawr ym maint y gwaith a dderbynnir.

Mae risgiau strategol yn cael eu rheoli ar lefel Bwrdd. Mae risg i'r gyfarwyddiaeth yn cael ei reoli gan bob cyfarwyddwr. Mae'r risg yn cynyddu os yw'r archwaeth risg yn cael ei ragori a gallai effaith andwyol ar dargedau, enw da neu weithrediadau godi o ganlyniad.

**Digwyddiadau cysylltiedig â data personol**

Yn ystod 2011/12 cofnodwyd un digwyddiad cysylltiedig â data personol yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cofnodwyd 11 o ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol yn ganolog oedd heb eu cofnodi'n ffurfiol yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Crynodeb o ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol a ddiogelir**

Mae digwyddiadau sydd ym marn y rheolwr data heb eu cynnwys o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog o fewn yr adran, i'w gweld yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bach, lleol wedi'u cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu crybwyll yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y Llywodraeth | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i adeiladau diogel y Llywodraeth | 7 |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol mewn modd anniogel | - |
| IV | Datgeliadau heb eu hawdurdodi | 1 |
| V | Arall | 2 |
| Cyfanswm | | 11 |

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Cynnwys gweithwyr**
Rydym yn annog ymgysylltu â gweithwyr mewn sawl ffordd gan gynnwys ymatebion ar-lein i ohebiaeth, cynllun myIdea a chynllun arloesi. Yn ogystal cynhelir arolygon staff deufisol i werthuso ymgysylltu â gweithwyr ochr yn ochr â chyfranogiad yn arolwg ymgysylltu blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Yn ystod y flwyddyn cynhelir digwyddiadau rheolaidd i uwch reolwyr a galwadau cynadledda i wella'r cyfathrebu dwyffordd a chynyddu'r nifer sy'n meddwl am heriau a chynllunio strategol.

**Gweithgareddau'r dyfodol**
Cyhoeddir ein cynlluniau yn ein Cynllun Busnes blynyddol sydd ar gael ar wefan y Gofrestrfa Tir. Cyhoeddir y targedau yn y cynllun drwy ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig, yn dilyn adolygiad gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr a Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae ein targedau wedi'u strwythuro ar sail amcanion strategol.

— **Cwsmeriaid** (adnabod, rhagweld a bodloni anghenion cwsmeriaid drwy fireinio a datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli yn gyson).
— **Ansawdd** (gwella cyflenwi gweithredol yn barhaus er mwyn ysgogi mesurau effeithlonrwydd, ansawdd a gwerth).
— **Pobl ac arloesi** (adnabod a gweithredu ar gyfleoedd i ddatblygu ein pobl a busnes y Gofrestrfa Tir er budd ein cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid).
— **Cyllid a chynhyrchedd** (bod yn hyblyg, yn effeithlon ac ymateb i amrywiadau yn y farchnad gan gyllido ein hanghenion buddsoddi yn y dyfodol).

Rydym yn cynnwys dau amcan cydraddoldeb tymor canolig.
— Ysgogi diwylliant o gynhwysedd a pharch yn ein sefydliad a cheisio gwella'n gadarnhaol yr ymgysylltu â'r staff gyda nodweddion wedi'u diogelu.
— Sicrhau bod ein staff yn gallu adnabod, rhagweld a bodloni ein hanghenion cwsmeriaid amrywiol drwy gyflenwi cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli am bris y gall y ddau ohonom ei fforddio.

Dau o'r amcanion perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yw:
— datblygu Strategaeth Busnes newydd i'r gweinidog erbyn 30 Medi 2012
— datblygu cynllun buddsoddi isadeiledd gan ystyried y Strategaeth Busnes, Grŵp Data Cyhoeddus a'r Bwrdd Strategaeth Data erbyn 31 Mawrth 2013.

Caiff ein Dogfen Fframwaith 2008 ei hadolygu i adlewyrchu newidiadau'r llywodraeth a chyd-destun y Grŵp Data Cyhoeddus.

Bydd y Gofrestrfa Tir yn cyflwyno gorchymyn ffioedd gostyngedig o dan y cynllun ffioedd presennol a fydd yn rhoi gostyngiad o 10 y cant ar gyfartaledd dros flwyddyn gyfan.

Rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i egwyddorion sylfaenol y gorchymyn ffioedd, gyda'r nod o gyflwyno ffioedd sefydlog yn seiliedig ar y gost o ddarparu'r gwahanol wasanaethau yn hytrach na bandiau gwerth.

Byddwn hefyd yn ymgynghori ar gau ein gwasanaeth archebu dros y ffôn i gwsmeriaid busnes a newidiadau cysylltiedig i'r Rheolau Pridiannau Tir. Mae galw am y gwasanaeth wedi lleihau yn dilyn cyflwyno gwasanaethau ar-lein a chyn bo hir ni fydd yn gost-effeithiol.

Mae crynodeb o'r e-strategaeth sy'n cael ei datblygu i'w weld ar dudalen 40.

**Y prif dueddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol**
Y prif duedd sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol yw lefel gweithgarwch y farchnad dai. Adolygir hyn yn gyson gan ddefnyddio amryw o ddangosyddion o ffynonellau allanol. Ar gyfer y flwyddyn 2012/13 rhagwelwn y bydd gweithgarwch yn weddol wastad ar y cyfan, ac yn debyg i lefelau gwaith 2011/12.

**Cyfarwyddiaethau a buddiannau sylweddol**
Mae ein Cadeirydd Anweithredol Mark Boyle yn aelod o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Prif amcan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr yw bod yn gyfranddaliwr effeithiol o fusnes sydd ym mherchnogaeth lwyr neu rannol y Llywodraeth a rheoli ymyriadau'r llywodraeth yn y sector preifat er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr. Nid yw'n cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr sy'n ymwneud â'r Gofrestrfa Tir.

**Cysylltiadau allweddol**
Mae cysylltiadau allweddol yn cynnwys ein contractau gydag IBM, sy'n hollbwysig i'r gwaith o gynnal a chadw ein cofrestr, Steria ar gyfer gwasanaethau TG, ein contract rheoli ffeiliau gyda TNT drwy fframwaith y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer storio ffisegol a'n contract rheoli cyfleusterau gyda Carillion ar gyfer ein 15 o adeiladau gweithredol.

**Daliwr Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn Ddaliwr Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus. Cadarnhaf ein bod wedi cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ar ffioedd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, sy'n rhan o'r Archifau Cenedlaethol. Mae gennym achrediad llawn drwy Gynllun Masnachwr Teg Gwybodaeth a reolir gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

**Adolygiad Gweithredu ac Ariannol**
Roedd y galw am ein gwasanaethau yn ddigyfnewid ar y cyfan yn ystod y flwyddyn. Cynhyrchwyd incwm o £359.3 miliwn (2010/11 £355.4 miliwn).

Ein gwarged gweithredu oedd £101.6 miliwn (2010/11 £64.9 miliwn) ar ôl costau gweithredu, a ostyngodd i £257.7 miliwn (2010/11 £290.5 miliwn).

Y costau newid yn ystod y flwyddyn oedd £21.0 miliwn (2010/11 £87.8 miliwn). Ynghyd ag elw ar waredu asedau o £5.2 miliwm (2010/11 £39.1 miliwn), incwm buddsoddi o £1.2 miliwn (2010/11 £0.6 miliwn), costau cyllid o £0.9 miliwn (2010/11 £0.9 miliwn) a chostau amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth o £4.4 miliwn (2010/11 £6.6 miliwn), gadawodd hyn warged o £81.6 miliwn (2010/11 £9.3 miliwn) cyn y difidend.

Y flwyddyn hon gwelwyd gwarged a gadwyd o £67.8 miliwn (2010/11 diffyg o £4.8 miliwn) yn dilyn cwblhau gweithgareddau ailstrwythuro drwy'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig.

Roedd y gwarediadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn gysylltiedig ag adeiladau yn Abertawe, Portsmouth a Plymouth.

Gyda chytundeb Trysorlys EM ein difidend sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn yw £13.8 miliwn, yn seiliedig ar ein cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd, sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol (2010/11 £14 miliwn).

Ein henillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd oedd 19.7 y cant. Roedd hyn yn adlewyrchu ymdrech ar y cyd drwy'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig i leihau costau a fydd yn cynnig modd i ni gyflwyno gorchymyn ffioedd gostyngedig newydd yn 2012/13. Ni lwyddom i gyflwyno'r gorchymyn ffioedd gostyngedig newydd yn ystod 2011/12 oherwydd gweithgareddau trawsnewid.

Ein cost yr uned arian parod oedd £27.16 yn erbyn y targed a osodwyd o £29.33 (£17.55 real yn erbyn y targed a osodwyd, sef £18,95 real).

**Grantiau'r llywodraeth**
O ganlyniad i newid yn y *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol,* mae'r ffordd rydym yn trin grantiau'r llywodraeth yn y cyfrifon wedi newid (gweler nodyn 1.20).

**Datganiad o sefyllfa ariannol**
Y flwyddyn hon mae datgelu'r Gronfa Indemniad yn newid i ddarpariaeth yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

**Asedau anghyfredol**
Ailbrisiwyd yr ystad ac o ganlyniad cafwyd gostyngiad mewn gwerth o £1.6 miliwn. Cyfanswm ein hychwanegiadau cyfalaf oedd £5.1 miliwn.

**Cronfa Indemniad**
Yn unol â pholisi'r Gofrestrfa Tir, cynhaliwyd prisiad actiwaraidd lefel uchel o'r Gronfa Indemniad gan Lane Clark & Peacock, cwmni o actiwarïaid, gan ddefnyddio'r un dull ag adolygiad actiwaraidd llawn 2010/11. O ganlyniad cafwyd cynnydd o £5 miliwn yn y ddarpariaeth (gweler nodyn 1.16).

**Malcolm Dawson OBE**
Prif Gofrestrydd Tir
Prif Weithredwr
Swyddog Cyfrifyddu

12 Mehefin 2012

# Gwybodaeth gryno

**Pobl**

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) ar 31 Mawrth | 4,724 | 5,483 |
| Cyfwerth ag amser llawn | 4,222 | 4,927 |
| Diwrnodau salwch y gweithiwr ar gyfartaledd | 7.4 | 8.1 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi y gweithiwr ar gyfartaledd | 4.4 | 4.4 |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 3.8% | 5.8% |
| Gweithwyr benyw | 60% | 61% |
| Gweithwyr rhan-amser | 36% | 34% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 4% | 4% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 6% | 6% |

Mae ein trefniadau recriwtio yn seiliedig ar gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac mae'n destun monitro mewnol. Dengys yr archwiliad diweddaraf nad oedd unrhyw bryderon. Ni chafodd unrhyw staff eu recriwtio o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil yn ystod y flwyddyn, roedd 18 wedi trosglwyddo'n barhaol i'r Gofrestrfa Tir o adrannau eraill o'r llywodraeth ac roedd dau wedi ymuno â ni ar secondiad.

**Amrywiaeth**

Yn dilyn cyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus newydd, rydym wedi newid y ffordd rydym yn sicrhau bod pob polisi a phroses yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd ei hun. Cyflwynwyd proses dadansoddi cydraddoldeb ddiwygiedig, ynghyd â phecyn e-ddysgu, gan sicrhau bod pob deiliad polisi allweddol ac uwch reolwr yn ystyried materion cydraddoldeb ar ddechrau'r broses o lunio polisi.

Mae hyrwyddwyr amrywiaeth a fforymau amrywiaeth lleol yn cael eu sefydlu ym mhob lleoliad swyddfa. Mae ein hyrwyddwyr wedi chwarae rôl ragweithiol wrth godi proffil materion cysylltiedig ag amrywiaeth ar lefel swyddfa leol. Mae'r gwaith allweddol wedi cynnwys defnyddio data cysylltiedig ag amrywiaeth, megis marciau arfarnu a chanlyniadau ymgysylltu â gweithwyr, i adnabod bylchau a themâu cyffredin.

Rydym wedi gwella hygyrchedd ein tudalennau gwe, gan gynnwys datganiad hygyrchedd i helpu pobl ag anableddau i lywio'r safle. Mae ein Strategaeth Cwsmeriaid wedi bod yn destun dadansoddiad cydraddoldeb, gan ein galluogi i ganolbwyntio ar anghenion amrywiol ein cwsmeriaid a hefyd sicrhau bod ein pobl yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Ym mis Ionawr cyhoeddwyd ein cyfres gyntaf o ddata cydraddoldeb, yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig meincnod i fesur cynnydd yn ei erbyn yn y dyfodol. Mae'n cynnig modd i ni a'n budd-ddeiliaid adnabod meysydd â blaenoriaeth ar gyfer ymchwil a gweithredu pellach ac mae'n dangos sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd statudol i hyrwyddo a monitro materion cydraddoldeb.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed drwy ein strategaeth amrywiaeth a'n cynllun cyflenwi amrywiaeth, ynghyd â'r tueddiadau a ddaeth i'r amlwg o'n cyfres o ddata cydraddoldeb. Drwy hyn rydym wedi gallu adnabod a gosod amcanion cydraddoldeb strategol sydd erbyn hyn yn ffurfio rhan o Gynllun Busnes y Gofrestrfa Tir. Bydd yr amcanion hyn yn cymryd lle ein cynllun cyflenwi amrywiaeth gan sicrhau bod ein gwaith wedi'i gysylltu'n glir â gweledigaeth y Gofrestrfa Tir.

Credwn fod y broses o sefydlu amcanion cydraddoldeb penodol, mesuradwy yn ein galluogi i gyflawni ein gofynion statudol yn well o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd i'w cyflawni. Nod ein hamcanion cydraddoldeb fydd helpu i hoelio sylw ar y materion cydraddoldeb â blaenoriaeth o fewn y Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau gwelliannau wrth lunio polisïau, cyflenwi gwasanaeth a chyflogaeth. Bydd y Pwyllgor Amrywiaeth yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno.

**Iechyd a diogelwch**

Gwelwyd newid mawr yn y ffordd y mae iechyd a diogelwch yn cael ei reoli o 1 Ebrill 2011. Cafodd iechyd a diogelwch ei reoli'n fewnol yn draddodiadol ond mae hyn wedi newid gyda chyflwyno contract allanol ar gyfer rheoli cyfleusterau. Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am bolisi a strategaeth iechyd a diogelwch, gyda Carillion, ein darparwr rheoli cyfleusterau yn cyflenwi'r gwaith bob dydd o reoli iechyd a diogelwch. Rhan o'r athroniaeth oedd elwa o brofiad eang Carillion o faterion iechyd a diogelwch a bu hwn yn ddylanwad cryf yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o'r newidiadau hyn rydym wedi cychwyn prosiect mawr i adolygu a diwygio pob un o'n polisïau a chanllawiau iechyd a diogelwch mewnol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ystyried o'r newydd sut rydym yn rheoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd.

Mae ein gwaith ar y Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007 yn parhau i ganolbwyntio ar y risgiau pennaf sy'n wynebu ein pobl yn eu gwaith beunyddiol. Y risgiau a nodwyd yw gyrru yn y gwaith, gweithio y tu allan i'r swyddfa, gwaith cynnal a chadw adeiladu yn ein hadeiladau a llithro, baglu a chwympo. Mae adroddiadau chwemisol yn cael eu paratoi i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn olrhain y risgiau hyn a monitro effeithiolrwydd y mesurau rheoli sydd yn eu lle.

Cyfanswm y damweiniau a gofnodwyd oedd 153 a llithro, baglu a chwympo yw'r categori mwyaf o hyd. Mae 10 damwain wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus, cynnydd o wyth damwain adroddadwy yn ystod 2010/11.

**Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo, sydd heb eu cofrestru o dan y Ddeddf Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai o Enwau Perchnogion. Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond drwy gael awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

Mae'r adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Y flwyddyn hon cyfanswm y ceisiadau a gafodd eu trin gan yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol oedd 1,486,367, sef lleihad o 27 y cant o'i gymharu â'r cyfanswm ar gyfer 2010/11.

Cyfanswm y chwiliadau a broseswyd oedd 1,331,009, sef lleihad o 27 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd cyfran y ceisiadau am chwiliad swyddogol a chopi swyddogol a dderbyniwyd dros y ffôn, drwy fynediad uniongyrchol a'r ffacs wedi parhau yn 8.2 y cant o'r cyfanswm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, gyda 94 y cant o geisiadau am gopi swyddogol yn cael eu cyflwyno fel hyn. Roedd canran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau wedi disgyn i 6.3 y cant o'i gymharu â 6.9 y cant y flwyddyn flaenorol.

**Yr Adran Pridiannau Tir**

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2011/12 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2010/11 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 102,620 | -31% |
| Dileadau | 14,148 | -5% |
| Chwiliadau swyddogol: | | |
| – chwiliadau llawn | 204,918 | -47% |
| – chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,123,402 | -22% |
| Copïau swyddogol | 36,664 | -31% |
| **Cyfanswm** | **1,481,752** | **-27%** |

**Yr Adran Credydau Amaethyddol**

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 | 6,344 |
| 2008/9 | 1,159 | 917 | 4,120 | 6,196 |
| 2009/10 | 917 | 737 | 3,405 | 5,059 |
| 2010/11 | 737 | 1,153 | 2,688 | 4,578 |
| 2011/12 | 840 | 1,086 | 2,689 | 4,615 |

# Gwybodaeth gryno

**Deddfwriaeth**
Ym mis Hydref 2011, gwnaethpwyd diwygiadau i is-ddeddfwriaeth cofrestru tir o ganlyniad i'r newidiadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i reoleiddio pobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau cyfreithiol, a chyflwyno strwythurau busnes eraill wrth i Ran 5 o'r Ddeddf honno ddod i rym. Yr offerynnau diwygio oedd Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2011, Rheolau Cofrestru Tir (Mynediad i'r Rhwydwaith) (Diwygiad) 2011 a Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) (Diwygiad) 2011.

Er mwyn trosglwyddo'n llawn gyfrifoldeb gweinidogol dros y Gofrestrfa Tir (a dau gorff arall) i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, lluniwyd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi, y Swyddfa Dywydd ac Arolwg Ordnans) 2011, a daeth i rym ym mis Tachwedd 2011. Yn fras, effaith y Gorchymyn, yn achos y Gofrestrfa Tir, oedd trosglwyddo swyddogaethau'r Arglwydd Ganghellor o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972 a Deddf Credydau Amaethyddol 1928 i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Y Pwyllgor Rheolau**
Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol ond (ers y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau) i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer llunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffioedd o dan y Ddeddf. Ym mis Ebrill 2011, cyfarfu'r Pwyllgor gan roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor ar yr hyn a ddaeth yn Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2011, a drafodir uchod.

**Gwybodaeth agored a llawn**
Mae rheoli gwybodaeth yn 2011/12 wedi cael ei lywodraethu gan gyhoeddi ein setiau data cyntaf am ddim sydd ar gael drwy'r Grŵp Data Cyhoeddus. Mae hyn wedi canolbwyntio sylw ar y ffordd rydym yn darparu setiau data yn ein Warws Data Menter llewyrchus. Rydym hefyd wedi bod yn dogfennu ein holl brif asedau gwybodaeth a sicrhau bod gwybodaeth am berchnogion asedau, eu hasiantau a'u stiwardiaid data yn deall cyfrifoldebau eu rolau. Mae'r broses ddogfennu hefyd wedi bod yn gyfle i ni ailasesu risg a chwilio am gyfleoedd sy'n gysylltiedig â phob ased.

Mae'r Uned Rheoli Gwybodaeth Gorfforaethol wedi cyhoeddi polisi Rheoli Gwybodaeth, wedi'i ategu gan ganllawiau ymarfer da. Rydym yn dechrau defnyddio'r rhain i roi gwybod i staff sut i ddefnyddio, storio a gwaredu gwybodaeth yn briodol. Mae'r arwyddion yn awgrymu bod ein mesurau aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth yn gwella ar draws pob elfen.

Derbyniwyd 235 o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ac atebwyd i 234 ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith. Cyhoeddwyd eglurhad ar yr achos oedd yn weddill a dderbyniwyd ym mis Mawrth ac rydym yn parhau i aros am ymateb iddo.

**Safonau gwasanaeth**
Mae manylion am y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan: www.landregistry.gov.uk/public/contracts/service-standards

**Gwasanaeth Cymraeg**
Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: www.landregistry.gov.uk/public/about-us/policy-statements/welsh-language-scheme

**Cwynion**
Yn 2011/12 cafwyd 2,193 o gwynion (o'i gymharu â 3,217 yn 2010/11), ac o'r rhain ymatebwyd i 92 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod (94 y cant yn 2010/11). Y materion mwyaf cyffredin a arweiniodd at gwynion oedd ein cyngor, camgymeriadau gweinyddol, oedi a'n polisi canslo a gwrthod. Roedd yr adborth mwyaf cyffredin am e-wasanaethau yn ymwneud â'u dyluniad a'u defnyddioldeb.

Mae enghreifftiau o newidiadau i'r Gofrestrfa Tir a ddaeth yn sgîl adborth yn cynnwys:

- pryderon am ddiogelwch y gofrestr yn dilyn cyhoeddusrwydd gan drydydd partïon yn cynnig gwasanaethau gwarchod dwyn teitl a'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau cenedlaethol. Mewn ymateb estynnwyd ein tudalen we *Gwarchod eich hunan rhag twyll eiddo* a lansiwyd mesur diogelwch ychwanegol (ffurflen RQ) wedi'i hanelu at berchnogion a allai fod â mwy o risg o gael eu twyllo
- materion sy'n ymwneud ag argaeledd dogfennau i'w cyflenwi'n electronig ar unwaith drwy e-wasanaethau Busnes. Ym Medi 2011 roedd y dogfennau sydd ar gael wedi gwella gan ddarparu gwybodaeth gliriach i'n cwsmeriaid.

Roedd Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd wedi cysylltu â'r Gofrestrfa Tir bedair gwaith ond ni luniwyd adroddiadau llawn.

Esbonnir ein trefn gwyno yn ein taflen *Unioni pethau* sydd wedi cael ei diwygio i sicrhau bod y canllawiau mor glir â phosibl ac yn cynnwys ein gwasanaethau masnachol Add Value.

**Cronfa Indemniad**
Yn 2011/12 talwyd £9,266,959.51 ar gyfer 935 o geisiadau, o'i gymharu â £9,417,594.13 ar gyfer 963 o geisiadau yn 2010/11. Adenillwyd £484,162.42 o dan ein hawliau digolledu statudol o'i gymharu â £1,077,252.63 y llynedd.

Mae heriau mawr wedi codi wrth ddelio â thwyll. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gallu i atal a chanfod twyll ac mae 36 o geisiadau twyllodrus naill ai wedi cael eu canslo neu eu gwrthod ar eiddo gwerth oddeutu £26.5 miliwn. Cafodd aelod o staff ei ddyfarnu'n euog o dwyll yn 2010 a'i garcharu am dair blwyddyn a naw mis. Gweithiodd ein Grŵp Gwrth-dwyll yn effeithiol â'r Heddlu Metropolitan i sicrhau erlyniad llwyddiannus.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol a Connect Direct**
Gwelwyd lleihau yn incwm y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (NLIS) a Connect Direct dros y flwyddyn ddiwethaf, sef dau wasanaeth chwiliadau electronig. Roedd incwm ffioedd o NLIS wedi gostwng 35 y cant i £2,058,753 ac o Connect Direct gan 46 y cant i £1,221,132. Rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid y ddau wasanaeth i'w trosglwyddo i'n gwasanaeth Business Gateway.

**Ystad**
Roedd y 15 adeilad swyddfa roeddem yn eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn yn gyfanswm o 101,888 o fetrau sgwâr. Roedd ein hadeiladau yn Nottingham, Stevenage a Lytham ar werth, neu'n cael eu paratoi i'w gwerthu, ac yn cyfrif am 41,332 o fetrau sgwâr o gapasiti dros ben.

Roedd ein hystad a feddiannir fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn erbyn lle gwaith y gellir ei ddefnyddio yn 16.87 metr sgwâr.

Sylwch: mae capasiti a maint yr ystad yn destun mesuriad ac mae mesuriad manwl o'r ystad bresennol a feddiannir ar y gweill.

Yn ystod y flwyddyn gwerthwyd Tŷ Bryn Glas, cyn adeilad Swyddfa Abertawe, am £3 miliwn, St Andrew's Court, cyn adeilad Swyddfa Plymouth am £7.35 miliwn, Plumer House, cyn adeilad Swyddfa Plymouth am £2.85 miliwn a Storfa Ffeiliau Trefansel am £0.21 miliwn.

parhad

**Taliadau indemniad**

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled wirioneddol (£) | Costau (£) | Canran cyfanswm cost yr hawliadau |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 199 | 264,023.96 | 415,118.38 | 7.33 |
| Camgymeriadau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 154 | 521,340.05 | 708,256.93 | 13.27 |
| Camgymeriadau mewn cynlluniau amrywiol | 10 | - | 4,226.90 | 0.04 |
| Twyll a ffugio | 52 | 6,283,786.81 | 906,308.01 | 77.60 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 7 | 62.67 | 1,425.35 | 0.02 |
| Camgymeriadau methdaliad | 2 | - | 280.00 | - |
| Chwiliadau swyddogol | 5 | - | 5,292.00 | 0.06 |
| Copïau swyddogol | 3 | 12.00 | 37.60 | - |
| Camgymeriadau mewn Chwiliadau o'r Map Mynegai | 21 | 1,013.34 | 9,641.01 | 0.11 |
| Camgymeriadau mewn darnau wedi'u ffeilio | 116 | 5,583.00 | 20,099.96 | 0.27 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 366 | 29,413.78 | 91,037.76 | 1.30 |
| Camgymeriadau Pridiannau Tir | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **935** | **7,105,235.61** | **2,161,723.90** | **100%** |
| Taliad gros | £9,266,959.51 | | | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawliau digolledu statudol y Gofrestrfa Tir | £484,162.42 | | | |
| *Indemniad net* | £8,782,797.09 | | | |

# Gwybodaeth gryno

Ein cyfanswm gwariant ar eiddo (gan gynnwys rhent, trethi busnes a thaliadau gwasanaeth) a rheoli cyfleusterau (gan gynnwys cyfleustodau, post a reprograffeg) oedd £23 miliwn. Ein gwariant ar wasanaethau a roddwyd i gontractwr allanol gyda'n darparwr rheoli cyfleusterau Carillion oedd £8.3 miliwn.

Mae ein gwasanaeth storio ffeiliau rhanbarthol yn cael ei ddarparu gan TNT trwy Fframwaith Rheoli Cofnodion ar draws y llywodraeth a reolir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae pedwar warws storfa ffeiliau ranbarthol wedi cael eu trosglwyddo i TNT gyda'r wyth sy'n weddill yn cael eu gwagio yn barod i'w gwaredu. Costau TNT, gan gynnwys trosglwyddo, oedd £3.7 miliwn.

**E-strategaeth**
Yn ystod 2011/12 roeddem wedi parhau i wella ein hamrywiaeth o wasanaethau electronig yn ein prif sianel busnes-i-fusnes, Business Gateway, gan lansio chwiliad o'r map mynegai, chwiliad o ran â blaenoriaeth, ymholiad rhestr ddydd, ymholiad yn ôl disgrifiad eiddo i gael rhifau teitl a gwasanaeth adroddiad e-statws i gael adroddiad cynnydd ar gyfer unrhyw geisiadau sy'n weddill am e-wasanaeth.

Mae'r rhain wedi cyfrannu at gynnydd yn y defnydd o e-wasanaethau gyda 79 y cant o'r holl drafodion yn cael eu derbyn yn electronig erbyn hyn ac o'r rhain roedd 65 y cant yn cael eu derbyn, eu prosesu a'u hanfon yn electronig. I'w roi yn ei gyd-destun, mae ein gwasanaethau'n rhannu'n wasanaethau niferoedd uchel, sensitif i amser, cychwynnol a'r gwasanaethau safonol mwy cymhleth. Erbyn hyn mae bron pob gwasanaeth cychwynnol (93 y cant) yn cael ei dderbyn yn electronig ac 19 y cant o'n gwasanaethau safonol.

Yn 2012/13 byddwn yn ehangu ein hamrywiaeth o wasanaethau safonol electronig er mwyn lleihau ymhellach y gwaith a dderbynnir trwy'r post a'r ymatebion drwy'r post. Cyflawnir hyn trwy gynnydd cyson yn nifer y gwasanaethau electronig a ddisgwylir drwy Business Gateway i gwsmeriaid sydd â niferoedd uchel o geisiadau a hefyd ein sianel porthol seiliedig ar y we i gwsmeriaid trawsgludo eraill. Bydd mentrau pellach i gynyddu canran y canlyniadau a gyflenwir yn electronig i gwsmeriaid yn cael eu lansio, megis sganio dogfennau papur pan geir cais gan gwsmer.

Gwasanaeth allweddol i'w ddarparu fydd lansio cofrestru e-ddogfennau yn y ddwy sianel electronig ar gyfer ein cwsmeriaid trawsgludo er mwyn osgoi oedi drwy'r post. Bydd y rhan fwyaf o fathau o geisiadau delio yn cael eu derbyn yn electronig megis trosglwyddo arwystl cyfan a chyfreithiol, gydag ymatebion electronig yn cael eu rhoi i gwsmeriaid ar gais ac ar ôl cwblhau'r broses gofrestru.

Gall ein cwsmeriaid ddisgwyl sawl mantais o'r gwasanaeth newydd hwn megis:

— cyflymder. Bydd cyflwyno ceisiadau electronig a dileu'r ddarpariaeth bost yn lleihau amserau prosesu cyfartalog o'r dechrau i'r diwedd
— costau a'r effaith ar yr amgylchedd. Bydd yr e-wasanaeth newydd yn cynnal angen cwsmeriaid i leihau papur. Bydd hefyd yn gyfle i leihau costau megis costau post a phrosesu â llaw
— llwybr archwilio electronig. Bydd pob cais yn cael ei dderbyn ac yn cael ymateb electronig, gan greu llwybr archwilio. Bydd hyn yn arf ddefnyddiol yn yr ymgyrch i atal twyll.

Rydym yn darparu gwasanaeth rhifyn cofrestr hanesyddol electronig hefyd yn ein sianel porthol, fel dull arall i helpu i atal twyll.

**Digwyddiadau diogelwch**
Mae diogelwch corfforol yn cael ei orchwylio gan y Pwyllgor Diogelwch Corfforol a Phersonél. Cofnodwyd 70 o achosion gan gynnwys wyth digwyddiad arwyddocaol (Dosbarth 1). Roedd hyn yn cynnwys effaith terfysgoedd yr haf, a effeithiodd ar Swyddfa Croydon a'r Brif Swyddfa. Cynhaliwyd adolygiad i werthuso'r gwersi parhad busnes a ddysgwyd o'r digwyddiad, er na chafodd unrhyw staff y Gofrestrfa Tir anaf ac ni chafwyd unrhyw ddifrod i eiddo'r Gofrestrfa Tir.

**Cyfrifoldeb corfforaethol**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfrifoldeb corfforaethol, gan gydweithio'n agos â Busnes yn y Gymuned i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo a chorffori ymddygiad busnes cyfrifol yn ein sefydliad. Mae pobl y Gofrestrfa Tir wedi parhau i wirfoddoli yn y gymuned, a dymunwn annog mwy o staff i wirfoddoli trwy hyrwyddo ein polisi gwirfoddoli a gweithgareddau penodol.

Mae cydweithwyr yn swyddfeydd Plymouth a Systemau Gwybodaeth wedi parhau i wirfoddoli fel hyfforddwyr swyddi gyda Shekinah Mission, y partner cyflenwi lleol yn Plymouth a Torbay ar gyfer ymgyrch Gweithredu Busnes ar Ddigartrefedd a reolir gan Fusnes yn y Gymuned. Mae o fudd mawr i'r gymuned leol ac mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi elwa'n bersonol drwy fagu hyder a datblygu eu sgiliau rhyngbersonol eu hunain, gan helpu i wella eu perfformiad yn y gwaith.

# Cyfrifon

# Datganiad llywodraethu

**Maes cyfrifoldeb**
Fel Swyddog Cyfrifyddu y Gofrestrfa Tir, rwyf yn gyfrifol, ar y cyd â Bwrdd y Gofrestrfa Tir, am gynnal llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni nodau, amcanion a thargedau'r Gofrestrfa Tir, gan warchod cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r Gofrestrfa Tir.

Mae fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u hamlinellu yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*. Rwyf yn atebol am berfformiad a stiwardiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, gyda chymorth Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dirprwyo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Gweinidog dros Gysylltiadau Cyflogaeth, Defnyddwyr a Phost.

Mae'r prif ddyletswyddau o ran cynnal y gofrestr teitl i dir rhydd-ddaliol a phrydlesol wedi'u diffinio yn Neddf Cofrestru Tir 2002 (gweler tudalen 7). Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu fel adran anweinidogol, cronfa fasnachu ac asiantaeth weithredol.

**Pwrpas y fframwaith llywodraethu**
Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod y Gofrestrfa Tir yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau uchaf o reolaeth fewnol a rheoli risg effeithiol. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar brosesau sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni cyfrifoldebau statudol y Gofrestrfa Tir, yr amcanion strategol a'r targedau. Ei nod yw gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r cyfleoedd a'r risgiau hynny (a'r effaith os cânt eu gwireddu) a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Diwygiwyd y fframwaith llywodraethu yn ystod 2011/12 fel y disgrifir isod yn dilyn penodi Cadeirydd Anweithredol am y tro cyntaf ac adolygu ein cydymffurfiaeth â'r cod newydd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet, *Llywodraethu corfforaethol mewn adrannau'r llywodraeth ganolog: Cod ymarfer da 2011.* Mae'r fframwaith a ddisgrifir wedi bod yn ei le ers Chwefror 2012 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu caf sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd dulliau rheoli risg a rheolaethau cysylltiedig sy'n ceisio rheoli risg a sicrhau bod perfformiad a stiwardiaeth asedau yn cael eu cyflenwi'n effeithiol gan bob un o'm cyfarwyddwyr ar y Bwrdd Gweithredol dros y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012.

**Llywodraethu cyffredinol**
Trosglwyddwyd cyfrifoldeb gweinidogol dros y Gofrestrfa Tir o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn weithredol o 18 Gorffennaf 2011. Yn sgil hynny daeth y Gofrestrfa Tir, Arolwg Ordnans a'r Swyddfa Dywydd o dan nawdd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ynghyd â Thŷ'r Cwmnïau gan ragflaenu ein rôl fel un o aelodau sylfaenol y Grŵp Data Cyhoeddus.

Mae'r newidiadau hyn yn rhan o amcanion y Llywodraeth ar gyfer gwella hygyrchedd data cyhoeddus a chefnogi twf economaidd ac ychwanegant bersbectif newydd at ein gwaith. Mae ein pwrpas canolog yr un fath, sef cyflawni ein cyfrifoldebau statudol mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd, ond erbyn hyn rydym hefyd yn canolbwyntio ar ein rôl fel busnes data gan ystyried sut y gallwn wneud defnydd gwell o ddata a rhannu data i hybu twf economaidd ac effeithlonrwydd gwasanaeth cyhoeddus. Fel cam cyntaf, rhyddhawyd Data Trafodiad misol am ddim am y tro cyntaf ym mis Ionawr a'n Data Pris a Dalwyd am ddim ym mis Mawrth. Mae'r ddwy set ddata wedi ennyn llawer iawn o ddiddordeb gan gwsmeriaid busnes a chwsmeriaid preifat a dyma'r cam cyntaf yn y broses o adleoli ein hadnoddau a'n asedau er budd yr economi a chymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn ychwanegol i'n cyfrifoldebau statudol ac yn mynd law yn llaw â nhw.

**Bwrdd y Gofrestrfa Tir**
Rôl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw cefnogi, herio'n adeiladol a chynnig arweiniad i'r Bwrdd Gweithredol, goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi'r Strategaeth Busnes a gytunwyd a sicrhau bod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu llywodraethu'n briodol.

Ar 24 Hydref penodwyd Mark Boyle fel Cadeirydd Anweithredol cyntaf Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Yn dilyn ei benodi, mae Mark a finnau wedi adolygu holl drefniadau llywodraethu'r Gofrestrfa Tir gan ailstrwythuro ac ailganolbwyntio Bwrdd y Gofrestrfa Tir er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch rôl Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.

Cyflwynwyd a gweithredwyd strwythur newydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn Chwefror 2012. Mae'n ceisio cynnal cydbwysedd eang rhwng mewnbwn gweithredol ac anweithredol i drafodaethau'r Bwrdd. Mae'r cyfansoddiad presennol yn cynnwys y Cadeirydd Anweithredol, dau gyfarwyddwr anweithredol (un ohonynt yn cynrychioli'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau), y Prif Gofrestrydd Tir, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr

parhad ar dudalen 44

**Tabl yn crynhoi gwir bresenoldeb a phresenoldeb posibl mewn cyfarfodydd ar gyfer pob aelod Bwrdd a phwyllgor**

Bwrdd y Gofrestrfa Tir diwygiedig yn weithredol o Chwefror 2012 wedi'i amlygu.

| | Teitl | Cyfnod | **Bwrdd** Bwrdd y Gofrestrfa Tir | Bwrdd Gweithredol | **Pwyllgorau** Archwilio | Tâl ac Enwebu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anweithredol** | | | | | | |
| Mark Boyle[1] | Cadeirydd Anweithredol | O Hyd 2011 | 6/8 | | | |
| Dr Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol | 2011/12 | 8/8 | | 4/5 | 1/1 |
| Mike Cutt | Cyfarwyddwr Anweithredol | Ebr 2011 i Ion 2012 | 6/8 | | | 1/1 |
| Jan Crosby[2] | Cyfarwyddwr Anweithredol | O Chwef 2012 | 5/8 | | | |
| Swydd wag | Cyfarwyddwr Anweithredol | | | | | |
| Swydd wag | Cyfarwyddwr Anweithredol | | | | | |
| Vaughan Williams | Aelod anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio | 2011/12 | | | 5/5 | |
| **Gweithredol** | | | | | | |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 2011/12 | 8/8 | 12/12 | 5/5 | 1/1 |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 2011/12 | 8/8 | 10/12 | | |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid | 2011/12 | 8/8 | 12/12 | 5/5 | |
| Alasdair Lewis[3] | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 2011/12 | 6/8 | 12/12 | | |
| Annette Davies-Govett[3] | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | O Fedi 2011 | 4/8 | 5/12 | | |
| Katie Gordon-Smith | Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | Ebr 2011 i Awst 2011 | 2/8 | 5/12 | | |
| John Wright[3] | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 2011/12 | 6/8 | 11/12 | 5/5 | |
| David Evans | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 2011/12 | 6/8 | 12/12 | | 1/1 |
| David Cleasby | Pennaeth y Grŵp Gweithrediadau Canolog a Rheolwr Ardal | 2011/12 | | | 5/5 | |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol | 2011/12 | | | 5/5 | |

Nodiadau ar y tabl

[1] Mynychodd Mark Boyle gyfarfod Bwrdd y Gofrestrfa Tir ym mis Medi fel aelod o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr, yna fel Cadeirydd o Hydref 2011.

[2] Mynychodd Jan Crosby Fwrdd y Gofrestrfa Tir fel cynrychiolydd y Weithrediaeth Cyfranddalwyr o Hydref 2011 (tri chyfarfod) ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol o Chwefror 2012.

[3] Cafodd aelodaeth cyfarwyddwr gweithredol Bwrdd y Gofrestrfa Tir ei lleihau yn unol â'r cod newydd yn Chwefror 2012. Mae John Wright yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio fel aelod, nid yn ei rinwedd fel Cyfarwyddwr, hyd nes bod Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn cael ei recriwtio. Mae David Cleasby yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio fel aelod, nid yn ei rinwedd fel Rheolwr Ardal, hyd nes bod Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn cael ei recriwtio. Gadawodd Mike Cutt, Cyfarwyddwr Anweithredol, Fwrdd y Gofrestrfa y Tir ar ddiwedd Ionawr 2012.

# Datganiad llywodraethu

Gweithrediadau. Rydym wrthi'n recriwtio dau gyfarwyddwr anweithredol ychwanegol a fydd yn cynnig profiadau perthnasol i bersbectif y cwsmer ar ein busnes a sut y gallem ddatblygu orau ein defnydd o ddata yn unol ag amcanion y Llywodraeth.

Mae'r aelodau anweithredol presennol yn annibynnol ar reolaeth. Nid oedd unrhyw enghreifftiau o benodiadau cwmni neu drefniadau ymgynghoriaeth gan aelodau'r Bwrdd a allai achosi gwrthdaro buddiannau posibl â'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd na chawsant sylw priodol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o'i strwythur pwyllgor, sydd wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd y Gofrestrfa Tir. Mae'r fframwaith newydd hwn yn cynnwys:
- cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir
- cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio
- cylch gorchwyl y Pwyllgor Tâl ac Enwebu
- cylch gorchwyl y Bwrdd Gweithredol a'i is-bwyllgorau ategol
- materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd
- cofnodion a phwyntiau cyfathrebu.

**Effeithiolrwydd y Bwrdd**
Mae'r Cadeirydd a'r swyddogion anweithredol wedi chwarae rhan lawn ym musnes Bwrdd y Gofrestrfa Tir drwy eu presenoldeb a'u cyfraniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ategol fel y crynhoir uchod.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i ddatblygu strategaeth tymor canolig newydd sy'n adlewyrchu amcanion y Grŵp Data Cyhoeddus a blaenoriaeth y Llywodraeth i gefnogi twf economaidd.

**Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd**
Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn derbyn cerdyn sgorio cytbwys o wybodaeth perfformiad.

Mae data perfformiad llwyth achos yn cael ei ddal gan ddefnyddio meddalwedd perchnogol newydd. Rwy'n hapus bod y system yn gadarn ac yn welliant i'r system flaenorol. Dof i'r casgliad hwn yn rhannol o'r gwerthusiad a roddwyd i mi gan Archwilio Mewnol.

Mae perfformiad ariannol yn seiliedig ar system gadarn. Mae gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer sefydlu cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol yn erbyn cyllidebau a rhagolygon blwyddyn gyfan. Rhoddir arweiniad a hyfforddiant i sicrhau bod ymddygiad deiliaid cyllideb yn gyson ac rwy'n fodlon bod tanwariant yn cael ei ildio neu fod gorwariant yn cael sylw er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i gyrraedd y targedau a gyhoeddwyd.

**Pwyllgorau'r Bwrdd**
*Pwyllgor Archwilio*
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadeirio gan Dr Catherine Raines. Mae'r aelodau a wasanaethodd i'w gweld yn y tabl blaenorol ynghyd â'r mynychwyr, gan gynnwys y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a staff eraill sy'n mynychu drwy wahoddiad.

Mae'r pwyllgor yn cynorthwyo Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu gan geisio sicrwydd drwy gyfrwng adroddiadau ar:
- y broses strategol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu
- y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol
- gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau'r Archwiliad Mewnol a'r Archwiliad Allanol
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodir gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli Archwilio Allanol
- sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol i'r sefydliad
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad blynyddol a chyfrifon gan gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd. Caiff aelodaeth y pwyllgor ei hadolygu pan gaiff y ddau gyfarwyddwr anweithredol newydd eu recriwtio.

*Pwyllgor Tâl ac Enwebu*
Cadeiriwyd y Pwyllgor Tâl ac Enwebu gan Dr Catherine Raines yn 2011/12. Caiff aelodaeth o'r pwyllgor ei diwygio pan gaiff y ddau gyfarwyddwr anweithredol newydd eu recriwtio. Daeth y pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod yn bresennol yn y dyfodol i gynghori ar agweddau ar berfformiad mewn perthynas â'r proffesiwn cyfreithiol.

*Bwrdd Gweithredol*
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn fy helpu yn fy nghyfrifoldebau dros reolaeth a chyfeiriad gweithredol, datblygu strategaeth, rheoli risg strategol, perfformiad yn erbyn targedau a gyhoeddwyd yn y Cynllun Busnes, dyletswyddau statudol, penderfyniadau a datblygu cynllunio portffolio buddsoddi'r Gofrestrfa Tir.

Bob mis, ar y cyd â'r Bwrdd Gweithredol, rwy'n adolygu perfformiad ariannol a gweithredol y Gofrestrfa Tir ac yn asesu cynnydd tuag at y targedau blynyddol cyhoeddedig. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r adnoddau ariannol a ddefnyddiwyd, rhagolygon ariannol ac asesiad o'r sefyllfa ariannol. Wedi'i gorffori yn yr adolygiad misol mae gwerthusiad o'r risgiau strategol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn parhau i roi amrywiaeth wrth wraidd ei strategaeth cwsmeriaid a phobl. Mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth yn paratoi adroddiadau i mi ac yn fy helpu i sicrhau cynnydd da yn erbyn targedau ac amcanion cydraddoldeb yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol yn paratoi adroddiad ac yn rhoi sicrwydd i mi fod cyfrifoldebau cymunedol ehangach y Gofrestrfa Tir yn cael eu cyflawni'n briodol.

**Archwilwyr**
Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n adrodd i'r Senedd, wedi archwilio'r cyfrifon (gweler tudalennau 33 a 54).

**Risg**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risgiau'n effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir gyfan. Dirprwyaf yn ffurfiol gyfrifoldeb dros reolaeth fewnol a digonolrwydd y trefniadau sicrwydd, yn yr un modd â llywodraethu corfforaethol cyfan, i gyfarwyddwyr unigol y Gofrestrfa Tir. Maent yn cyflwyno datganiad i mi bob blwyddyn sy'n cadarnhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg yn ei lle a'i bod yn gweithio o fewn eu maes cyfrifoldeb.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried risgiau strategol. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw hyrwyddwr risg y Bwrdd. Yn ystod 2011/12 gwerthuswyd yr archwaeth risg ar gyfer pob risg strategol gan y Bwrdd Gweithredol. Bob mis bydd y risgiau strategol yn cael eu hadrodd arnynt a'u hadolygu yn y Bwrdd Gweithredol; mae adroddiad risg mwy trylwyr yn cael ei lunio bob chwarter hefyd. Mae dangosyddion arweiniol yn cael eu monitro i roi rhybudd cynnar o newidiadau i risg strategol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn wynebu heriau a risgiau i gyflawni ei hamcanion busnes strategol. Mae'r risgiau strategol yn canolbwyntio ar warchod cywirdeb y gofrestr, cymorth cwsmeriaid a budd-ddeiliaid ar gyfer ein strategaeth a'r gallu i ymdopi ag amrywiadau mawr ym maint y gwaith.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cyfrannu at yr adolygiad Isadeiledd Cenedlaethol Hanfodol (Categori 4, Cyllid).

Mae strategaeth rheoli risg yn ei lle ar bob lefel yn y sefydliad i sicrhau bod risgiau'n cael eu lleddfu'n effeithiol. Drwy ddirprwyo i gyfarwyddwyr gweithredol caf fy sicrhau gan waith y cyrff gwneud penderfyniadau gan gynnwys y Pwyllgor Cynllunio Cyllidebu a Buddsoddi, y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, y Pwyllgor Gwarchod y Gofrestr, Pwyllgor y Bobl a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Mae'r gwaith o reoli'r risgiau ariannol, risg gwybodaeth, risg i'r Gofrestrfa Tir a'r dyletswyddau iechyd a diogelwch a statudol yn cael eu rheoli gan y pwyllgorau hyn a'u cyfeirio fel risg cynyddol ataf i fel y bo'n briodol, yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer pob pwyllgor. Mae ein rhaglen fuddsoddi a sicrwydd risg prosiect yn cael eu darparu trwy'r Pwyllgor Cynllunio Cyllidebu a Buddsoddi a'r Bwrdd Gweithredol.

Ceir sicrwydd drwy ymgysylltu â'r Grŵp Cynllunio Busnes, Sicrwydd a Rheoli Risg ac archwiliad ac adroddiad blynyddol gan Archwilio Mewnol, i gadarnhau bod y prif risgiau busnes yn cael eu hadnabod a'u lleddfu. Yn ogystal caf sicrwydd ynghylch y risg i'r gyfarwyddiaeth drwy sicrwydd fy nghyfarwyddwyr bob chwe mis a chymorth y Grŵp Cynllunio Busnes, Sicrwydd a Rheoli Risg drwy'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Roedd adolygiad archwiliad mewnol o reoli risg i'r gyfarwyddiaeth wedi adnabod cyfleoedd i wella rheolaeth risg ymhellach drwy'r datblygiad ychwanegol o archwaeth risg lleol sy'n cael ei weithredu arno. Bydd fy staff yn gwella'r canllawiau ar y meini prawf ar gyfer cyfeirio risg fel risg cynyddol a gwerthuso effeithiolrwydd y rheolaethau sy'n cael eu cymhwyso i risgiau ar gyfer 2012/13.

**Risg gwybodaeth**
Rheolir risg gwybodaeth drwy'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, dan arweiniad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Caf sicrwydd gan ardystiad y Gofrestrfa Tir sy'n dangos ei bod yn cydymffurfio ag ISO 27001, ISO 14001, Cod Cysylltu GSI, IAMM, CMMI ac ISO 20000.

# Datganiad llywodraethu

**Amgylchedd risg**
Mae'r proffil risg strategol wedi gostwng yn ystod 2011/12 ac fe'i hasesir fel un canolig.

**Colledion data**
Yn ystod y flwyddyn cafodd un golled sylweddol ei hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ymwneud ag adroddiad damwain a gafodd ei golli. Cadarnhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth ar ôl ystyried y ffeithiau'n ofalus, nad oedd hi'n briodol i gymryd unrhyw gamau rheoleiddio ffurfiol.

**Llywodraethu ac effeithiolrwydd**
Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol. Mae tystiolaeth o berfformiad a rheoli risg yn cael ei seilio ar waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr o fewn y Gofrestrfa Tir, ac mae'r olaf yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r tîm gweithredol yn asesu ac yn monitro'n gyson ein perfformiad a systemau rheolaeth fewnol cysylltiedig. Mae ein harchwilwyr mewnol wedi adolygu systemau cyllid a diogelwch gwybodaeth.

Mae ein harchwilwyr mewnol yn gweithredu yn ôl y safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol mae gan y Gofrestrfa Tir systemau digonol o reoli risg a phrosesau rheolaeth a llywodraethu effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni ein hamcanion.

**Malcolm Dawson OBE**
Swyddog Cyfrifyddu
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2012

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol mewn ffurf ac ar sail a osodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 59. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i incwm a'i gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro sylweddol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

# Adroddiad tâl

**Polisi ar gyfer uwch weision sifil**
Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:
— yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
— amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
— polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
— y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
— targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn cael ei osod gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae adolygiadau tâl blynyddol yn gyfrifoldeb Pwyllgor Tâl y Gofrestrfa Tir.

Mae Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, sy'n gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer Uwch Weision Sifil y Gofrestrfa Tir, yn unol â chanllawiau'r Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn aelodau Pwyllgor Tâl Uwch Weision Sifil oedd: Catherine Raines (Cadeirydd), Mike Cutt, David Evans a Malcolm Dawson.

**Polisi ar gyfer gweision sifil eraill**
Mae'r tâl i weithwyr y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Yn 2011 roedd y Gofrestrfa Tir wedi gweithredu'r gyntaf o ddwy flynedd o rewi cyflogau'r sector cyhoeddus a osodwyd yng Nghyllideb frys 2010. Ni thalwyd am unrhyw gynnydd ar y raddfa gyflog. Ni chafodd graddfeydd cyflog eu hailbrisio yn unol â'r rhewi cyflogau. Fodd bynnag, talwyd cynnydd o £250 i weithwyr ar y ddwy radd weinyddol oedd yn ennill llai na £21,000 y flwyddyn. Roedd nifer fach o weithwyr ar y graddau hyn sy'n gweithio yn Croydon ac sy'n ennill ychydig mwy na £21,000 wedi cael y cynnydd o £250 hefyd er mwyn cynnal y gwahaniaeth rhwng Llundain a'r graddfeydd cyflog cenedlaethol.

**Contractau gwasanaeth**
Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn mynnu bod penodiadau Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud ar sail deilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu penodi am gyfnod penagored ac mae'n rhaid iddynt roi cyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r contract yn gynnar, heblaw ar sail camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

**Cadeirydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir**
Penodwyd y Cadeirydd Mark Boyle am 18 mis, ar sail dau ddiwrnod yr wythnos.

**Prif Weithredwr**
Penodwyd y Prif Weithredwr Malcolm Dawson ar sail cyfnod o 18 mis y gellir ei adnewyddu o Fawrth 2011.

**Cyfarwyddwyr Anweithredol**
Cafodd penodiad Catherine Raines ei adnewyddu yn Ionawr 2012 am gyfnod o dair blynedd. Daeth penodiad Mike Cutt i ben yn Ionawr 2012. Mae penodiad Jan Crosby ar gyfer cyfnod na fydd yn fwy na thair blynedd fel rheol.

**Cyflog**
Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i gael pwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y codir treth y DU arnynt. Mae'r tabl gyferbyn yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

**Buddion mewn nwyddau**
Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn berthnasol i unrhyw fuddion a roddir gan y Gofrestrfa Tir ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

**Bonysau**
Mae bonysau'n seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau'n gysylltiedig â pherfformiad yn y flwyddyn pan fyddant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a nodwyd yn 2011/12 yn ymwneud â pherfformiad yn 2010/11 ac mae'r bonysau cymharol a nodwyd ar gyfer 2010/11 yn ymwneud â pherfformiad yn 2009/10.

| Cyflog a thâl perfformiad[1] | 2011/12 Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100 agosaf | 2010/11 Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100 agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Malcolm Dawson OBE<br>(o 22 Mawrth 2011)<br>Blynyddol cyfatebol<br>Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 105-110 | - | - | 0-5<br><br>(105-110) | - | - |
| John Peaden<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 90-95 | - | 200 | 80-85 | 0-5 | - |
| Alasdair Lewis<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 90-95 | - | - | 90-95 | 5-10 | - |
| David Evans<br>(o 25 Mawrth 2011)<br>Blynyddol cyfatebol<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 80-85 | 0-5 | - | 0-5<br><br>(80-85) | - | - |
| Heather Foster<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 90-95 | - | - | 90-95 | - | - |
| John Wright<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 100-105 | - | - | 100-105 | - | - |
| Annette Davies-Govett<br>Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 90-95 | - | - | 90-95 | - | - |
| Katie Gordon-Smith<br>(o 15 Mawrth 2011 tan 31 Awst 2011)<br>Blynyddol cyfatebol<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 30-35<br><br>(75-80) | - | - | 0-5<br><br>(75-80) | - | - |
| Mark Boyle<br>(o 24 Hydref 2011)<br>Blynyddol cyfatebol<br>Cadeirydd Anweithredol | 25-30<br><br>(60-65) | - | - | - | - | - |
| Catherine Raines<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 25-30 | - | - | 45-50 | - | - |
| Mike Cutt<br>(tan 31 Ionawr 2012)<br>Blynyddol cyfatebol<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15-20<br><br>(15-20) | - | - | 20-25<br><br>(20-25) | - | - |
| Jan Crosby[2]<br>(o 26 Mawrth 2012)<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | - | - | - | - | - | - |

1 Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.
2 Mae Jan Crosby yn weithiwr amser llawn yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau; nid yw'n cael unrhyw dâl ychwanegol gan y Gofrestrfa Tir am ei rôl fel cyfarwyddwr anweithredol.

# Adroddiad tâl

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**
Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun buddion wedi'u diffinio; naill ai cynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r cynllun buddion wedi'u diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant ar gyfer cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Bydd cynnydd yng nghyfraniadau gweithwyr yn gymwys o 1 Ebrill 2012. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid i bob pwrpas, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy a ddewiswyd gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes yn oedran pensiwn neu dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o'r cynllun classic, premium a classic plus a 65 oed ar gyfer aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservice-pensions.gov.uk

**Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod**
Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniadau pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniadau pensiwn eraill pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniadau eraill y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu budd pensiwn ychwanegol o'i boced ei hun. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan yr Institute and Faculty of Actuaries ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu defnyddio.

**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus a ddaeth yn sgil chwyddiant, neu'r cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniadau pensiwn eraill) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

| **Buddion pensiwn**[3] | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2012 | | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (CETV) ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | | | |
| | | | | | 2012 | 2011[4] | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Bwrdd Gweithredol** | | | | | | | |
| Malcolm Dawson OBE (o 22 Mawrth 2011) Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 2.5 – 5.0 | 7.5 – 10.0 | 40 – 45 | 120 – 125 | 706 | 603 | 50 |
| John Peaden Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | -2.5 – 0.0 | -2.5 – 0.0 | 35 – 40 | 105 – 110 | 710 | 670 | -17 |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | -2.5 – 0.0 | -2.5 – 0.0 | 30 – 35 | 95 – 100 | 620 | 580 | -10 |
| David Evans Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 2.5 – 5.0 | - | 50 – 55 | - | 992 | 855 | 63 |
| Heather Foster Cyfarwyddwr Cyllid | -2.5 – 0.0 | -2.5 – 0.0 | 35 – 40 | 115 – 120 | 817 | 757 | -17 |
| John Wright Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 0.0 – 2.5 | - | 10 – 15 | - | 169 | 139 | 15 |
| Annette Davies-Govett Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 0.0 – 2.5 | - | 5 – 10 | - | 70 | 51 | 13 |
| Katie Gordon-Smith (tan 31 Awst 2011) Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 0.0 – 2.5 | - | 10 – 15 | - | 74 | 65 | 1 |

3 Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.
4 Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo CETV yn 2011/12. Mae'r CETV ar 31/3/11 a 31/3/12 wedi cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r CETV ar 31/3/11 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

# Adroddiad tâl

**Adrodd ar gynllun digolledu'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau digolledu eraill - pecynnau ymadael[5]**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2011 | 2012 | 2011 | 2012 | 2011 |
| £0-£10,000 | - | - | 1 | 89 | 1 | 89 |
| £10,001-£25,000 | - | - | 74 | 166 | 74 | 166 |
| £25,001-£50,000 | - | - | 127 | 186 | 127 | 186 |
| £50,001-£100,000 | - | - | 125 | 386 | 125 | 386 |
| £100,001-£150,000 | - | - | 10 | 119 | 10 | 119 |
| £150,001-£200,000 | - | - | 1 | 51 | 1 | 51 |
| >£200,000 | - | - | - | 68 | - | 68 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | - | - | 338 | 1,065 | 338 | 1,065 |
| Cyfanswm cost | | | £15,502,499 | £79,426,950 | £15,502,499 | £79,426,950 |

5 Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae'r data yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau ex-gratia o £26,280 (2010/11: £49,885).

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb contractiol i ymadael. Os yw'r Gofrestrfa Tir wedi cytuno ar ymddeoliad cynnar, mae'r costau ychwanegol yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

**Cymarebau tâl**
Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod y pensiynau.

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf (£'000) | **105 – 110** | 160 – 165 |
| Cyfanswm canolrifol (£) | **25,231** | 24,579 |
| Cymhareb tâl | **4.3** | 6.6 |

Yn 2011/12, ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £105,000 – £110,000 i £15,000 – £20,000 (2010/11: £160,000 – £165,000 i £15,000 – £20,000).

Er bod y sefydliad wedi gweithredu'r flwyddyn gyntaf o ddwy flynedd o rewi tâl, cynyddodd cyfanswm enillion canolrifol ychydig oherwydd bod y gweithlu wedi lleihau gan 502 o weithwyr rhwng 1 Ebrill 2011 ac 1 Ebrill 2012, ac roedd 89 y cant o'r rhai a adawodd ar y graddfeydd cyflog is (RE2U neu is). Roedd lleihad ym mand tâl y cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf hefyd wedi effeithio ar y gymhareb.

**Malcolm Dawson OBE**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2012

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl hefyd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed wedi'i achosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y Gofrestrfa Tir; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol rwyf yn ystyried goblygiadau'r rhain ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2012 a'i gwaged a godwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Rhagair ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu ni dderbyniwyd manylion digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r adran o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r manylion, neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

15 Mehefin 2012

# Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | **Nodiadau** | **2012** | 2011 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | £'000 |
| Incwm - gweithrediadau parhaus | 2 | **359,338** | 355,364 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(244,009)** | (275,675) |
| Gwarged gros | 2 | **115,329** | 79,689 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(13,722)** | (14,833) |
| **Gwarged gweithredu** | | **101,607** | 64,856 |
| Elw ar waredu asedau anghyfredol | | **5,170** | 39,114 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **1,170** | 580 |
| Costau cyllid | 6 | **(878)** | (870) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | 8.1, 9.1 | **(4,448)** | (6,577) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(21,000)** | (87,847) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **81,621** | 9,256 |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(13,776)** | (14,006) |
| **Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | | **67,845** | (4,750) |
| (Colled)/elw ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **(1,608)** | 1,316 |
| **Gwarged/(diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **66,237** | (3,434) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 75 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2011

| | | **2012** | | 2011 (Ailddatganwyd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **109,186** | | 118,968 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **22,962** | | 27,997 | |
| Eraill i'w derbyn | 11.2 | **1,086** | | 2,164 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **133,234** | | 149,129 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **1,365** | | 1,215 | |
| Masnachu ac eraill i'w derbyn | 11.1 | **8,366** | | 8,774 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **379,817** | | 299,635 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **389,548** | | 309,624 |
| Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **6,156** | | 21,111 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **528,938** | | 479,864 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w talu | 13.1 | **44,598** | | 42,374 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 15.1 | **2,168** | | 1,949 | |
| Darpariaethau tymor byr | 17.1 | **9,878** | | 24,923 | |
| | | | **56,644** | | 69,246 |
| Cronfa Indemniad | 17.2 | | **26,800** | | 21,800 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **83,444** | | 91,046 |
| **Asedau anghyfredol gydag asedau cyfredol net** | | | **445,494** | | 388,818 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 15.1 | **8,038** | | 7,057 | |
| Darpariaethau hirdymor | 17.1 | **27,591** | | 32,198 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **35,629** | | 39,255 |
| **Asedau net** | | | **409,865** | | 349,563 |
| **Cyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 |
| Cronfa Ailbrisio | | | **34,001** | | 41,794 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **314,319** | | 246,224 |
| | | | **409,865** | | 349,563 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 75 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Malcolm Dawson OBE**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2012

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus £'000 | Cronfa Grant y Llywodraeth £'000 | Cronfa Ailbrisio £'000 | Cronfa Incwm a Gwariant £'000 | Cyfanswm cronfeydd £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2010** | 61,545 | 4,366 | 64,564 | 246,256 | 376,731 |
| Newidiadau i'r polisi cyfrifyddu | - | (4,366) | - | 4,366 | - |
| **Gweddill wedi'i ailddatgan ar 1 Ebrill 2010** | 61,545 | - | 64,564 | 250,622 | 376,731 |
| **Newidiadau i gronfeydd 2010/11** | | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | - | - | (352) | 352 | - |
| Trosglwyddo i asedau a ddelir i'w gwerthu | - | - | (23,734) | - | (23,734) |
| Diffyg net cynhwysfawr | - | - | 1,316 | (4,750) | (3,434) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2011** | 61,545 | - | 41,794 | 246,224 | 349,563 |
| **Newidiadau i gronfeydd 2011/12** | | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | **-** | **-** | **(250)** | **250** | **-** |
| Trosglwyddo i asedau a ddelir i'w gwerthu | **-** | **-** | **(5,935)** | **-** | **(5,935)** |
| Gwarged net cynhwysfawr | **-** | **-** | **(1,608)** | **67,845** | **66,237** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2012** | **61,545** | **-** | **34,001** | **314,319** | **409,865** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 75 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 20.1 | **84,367** | 51,218 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(1,749)** | (18,252) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **-** | (494) |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **13,436** | 47,683 |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,059** | 523 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **12,746** | 29,460 |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(14,006)** | (15,279) |
| Ad-daliadau o elfen cyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(2,047)** | (2,219) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(878)** | (870) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **(16,931)** | (18,368) |
| **Cynnydd net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 20.2 | **80,182** | 62,310 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 20.2 | **299,635** | 237,325 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **379,817** | 299,635 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 75 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

**1.1 Sail paratoi**
Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2011/12 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y llawlyfr yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn sylweddol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd i gynnal y busnes yn y dyfodol. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r Ddeddf ac ni chafwyd gwybod am unrhyw benderfyniadau i awgrymu y bydd diwygiad yn digwydd yn y 12 mis nesaf, ac mae'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig wedi cynnig strwythur i gefnogi'r busnes fel busnes gweithredol.

Ni ddisgwylir i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sydd wedi'u cyhoeddi, ond sydd heb fod yn weithredol eto, ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu o dan sylw, gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

**1.2 Confensiwn cyfrifyddu**
Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau a ddelir i'w gwerthu, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn sylweddol, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

**1.3 Incwm ffioedd**
Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannau tir, gan gynnwys credydau amaethyddol, ac ar gyfer incwm masnachol. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol yn y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae rhai gwasanaethau yn gofyn am dderbyn tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu nodi fel ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

**1.4 Yswiriant**
Codir yswiriant i'r datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer yswirio eiddo, lifftiau, cerbydau, defnyddio ceir hur a theithio dramor.

**1.5 Buddion gweithwyr**
Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel cost yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu pan fydd modd dangos bod cytundeb anwrthdroadwy i derfynu cyflogaeth gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynllun neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

**1.6 Pensiynau**
Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n cael budd o wasanaethau'r gweithwyr drwy dalu i mewn i'r Cynllun symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth dros dalu buddion yn y dyfodol yn dâl ar y Cynllun. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau'r Swyddfa'r Cabinet o dan Flwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

**1.7 Eiddo, offer a chyfarpar**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith', a chafodd ei gynnal eleni yn Ionawr 2012. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf yn Ionawr 2011.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

Mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol eraill yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg. Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased.

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys am ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys am gost hanesyddol llai'r dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio.

Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | 2 y cant |
| Adeiladau prydlesol | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 20 y cant |
| Offer swyddfa | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | mini a chyfrifiaduron personol 33 $^{1}/_{3}$ y cant |
| Cerbydau modur | 25 y cant |
| Ceblo strwythuredig | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthiant yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

**1.8 Amhariad o asedau anghyfredol**

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd, oni bai bod yr ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, ac os felly mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i'w werthu a gwerth ei ddefnyddio. Wrth asesu gwerth ei ddefnyddio mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgownt gymwys y llywodraeth sef 3.5 y cant.

**1.9 Asedau anniriaethol**

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu tair system i gyflwyno e-wasanaethau ac mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio erbyn hyn. Mae cost datblygu systemau TG (porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r costau hyn yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o 10 y cant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y systemau, a bennwyd drwy gyfeirio at oes ddefnyddiol asedau tebyg eraill a defnyddir yn y Gofrestrfa Tir.

Mae'r systemau yn cael eu hasesu am arwyddion o amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar linell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Prif ffrâm | 20 y cant |
| Bwrdd gwaith | 33 $^{1}/_{3}$ y cant |

**1.10 Stocrestrau**

Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gost a gwerth realeiddio net, sy'n seiliedig ar y ffi, llai costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r achos.

**1.11 Masnach i'w dderbyn**

Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan ar ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasamcan o werth teg.

**1.12 Arian parod ac arian parod cyfatebol**

Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol.

**1.13 Masnach i'w dalu**

Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan ar ei werth nominal. Ystyrir bod swm cario masnach i'w dalu yn frasamcan o werth teg.

**1.14 Deilliadau wedi'u corffori**
Mae deilliadau wedi'u corffori mewn contractau lletyol yn cael eu trin fel deilliadau ar wahân os nad yw eu risgiau a'u nodweddion wedi'u cysylltu'n agos â rhai'r contract lletyol a chyfrifir amdanynt ar wahân. Nid yw adolygiad o brif gontractau'r Gofrestrfa Tir wedi adnabod unrhyw ddeilliadau wedi'u corffori ac felly nid oes angen datgeliad ar wahân.

**1.15 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

**1.16 Cronfa Indemniad**
Sefydlwyd y Gronfa Indemniad yn 1993. Yn 2010/11 comisiynodd y Gofrestrfa Tir Lane Clark & Peacock i gynnal adolygiad actiwaraidd. Mae'r gronfa yn cynrychioli'r swm a gyfrifir gan yr actiwarïaid proffesiynol annibynnol fel yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni'r ddyletswydd statudol sydd ar y Gofrestrfa Tir i indemnio teitl cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd adolygiad lefel uchel gan Lane Clark & Peacock yn 2011/12. Argymhellodd yr adroddiad hwnnw fod y Gofrestrfa Tir yn cynyddu'r gronfa i £26.8 miliwn fel ar 31 Mawrth 2012. Bydd hawliadau a brofir ac a gwmpasir gan y gronfa yn cael eu codi, yn y lle cyntaf, yn erbyn y gronfa.

**1.17 Rhwymedigaethau wrth gefn**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o gamgymeriadau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

**1.18 Prydlesi cyllid**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a manteision bod yn berchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir i'r datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.19 Prydlesi gweithredu**
Prydles weithredu yw unrhyw brydles heblaw prydles gyllid. Codir costau rhentu o dan brydlesi gweithredu ar y datganiad o incwm cynhwysfawr wrth iddynt godi.

**1.20 Grant cyfalaf y llywodraeth**
Mae newid i'r ffordd y caiff grantiau eu trin yn y cyfrifon yn creu addasiad blwyddyn flaenorol i ddileu Cronfa Grant y Llywodraeth o'r datganiad o sefyllfa ariannol. (Gweler nodyn 1.25)

**1.21 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat**
Mae contract Menter Cyllid Preifat â Steria yn cael ei gyfrif amdano o dan Bwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol 12 fel y'i diwygiwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae elfen gyfalaf y gwariant o dan y contract yn cael ei chofnodi fel ased ar y fantolen ac mae'r elfen wasanaeth yn cael ei mynegi trwy'r datganiad o incwm cynhwysfawr pan fydd yn codi. Mae'r swm a gyfalafwyd yn cael ei amorteiddio dros oes fyrrach yr ased neu gyfnod y contract.

**1.22 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu yr asedau sefydlog. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.23 Difidend y Trysorlys**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni cheir unrhyw effaith os cyfrifir y ffigur hwn drwy ddefnyddio dull arall e.e. cyfartaledd misol.

**1.24 Technegau amcangyfrif**
Technegau amcangyfrif yw'r dulliau a fabwysiadir i bennu'r

## Nodiadau ar y datganiadau ariannol

symiau ariannol a amcangyfrifir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd a phrisio asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad y cyfrifon. Mae technegau amcangyfrif arwyddocaol ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn cynnwys cydnabod a phrisio darpariaethau, e.e. incwm cronnus, Menter Cyllid Preifat, darpariaethau ymddeol a diswyddo cynnar a'r Gronfa indemniad.

**1.25 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol**

O dan IAS 8 *Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu mewn amcangyfrifon a chamgymeriadau cyfrifyddu,* mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisïau cyfrifyddu neu i gywiro camgymeriadau mewn cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau, neu gamddatganiadau.

Roedd Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi datgan yn flaenorol bod rhaid i asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth gael eu cymryd i gronfa benodol, a'u hamorteiddio i'r datganiad o incwm cynhwysfawr dros gyfnod oes yr ased. Newidiwyd hyn yn Llawlyfr 2011/12, ac erbyn hyn mae'n ofynnol i grantiau gael eu cymryd i'r datganiad o incwm cynhwysfawr pan gânt eu derbyn, oni bai drwy eithriad bod y cyllidwr yn gosod amodau. Mae cyfrifon 2010/11 wedi cael eu hailddatgan i gydymffurfio â'r gofyniad hwn. Mae'r gweddill ar gronfa grant y llywodraeth wedi cael ei gyfrif amdano drwy symudiad drwy'r gronfa Incwm a Gwariant yn 2010/11 o £4.4 miliwn ar gyfer blynyddoedd blaenorol; a thâl o £0.5 miliwn i'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn 2010/11. Nid yw unrhyw daliadau yn ymwneud â chronfa grant y llywodraeth wedi cronni yn 2011/12.

Mae cyfrifon 2010/11 wedi cael eu hailddatgan hefyd i ddatgelu incwm masnachol, a gafodd ei ddebydu yn flaenorol yn erbyn gwariant (gweler nodyn 2). Effaith hyn fu cynnydd yn y ffigur cyfanswm incwm a chynnydd cyfartal mewn gwariant.

## 2 Segmentau busnes

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â chanllaw *Ffioedd a thaliadau'r* Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 8.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyflawni dau wasanaeth statudol ar wahân: cofrestru teitl, a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol.

Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost gwasanaeth a'r gwarged ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn. Mae incwm gwasanaethau masnachol anstatudol wedi'i gynnwys hefyd. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu os oes modd eu hadnabod ar wahân gyda'r gwasanaeth neu eu dosrannu yn gymesur i'r incwm a gynhyrchir gan bob segment.

| | Statudol | | Anstatudol[1] | | Statudol | | Anstatudol[1] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannu tir a chredydau amaethyddol** | **Incwm masnachol** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannu tir a chredydau amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | | | | **2012** | | | | 2011 (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm | **349,494** | **4,921** | **4,923** | **359,338** | 346,422 | 4,580 | 4,362 | 355,364 |
| Cost gwasanaeth | **(236,226)** | **(4,429)** | **(3,354)** | **(244,009)** | (268,281) | (4,122) | (3,272) | (275,675) |
| Costau gweinyddol | **(13,180)** | **(246)** | **(296)** | **(13,722)** | (14,307) | (237) | (289) | (14,833) |
| Gwarged gweithredu | **100,088** | **246** | **1,273** | **101,607** | 63,834 | 221 | 801 | 64,856 |

1 Am y tro cyntaf, mae incwm masnachol yn cael ei ddatgelu ar wahân yn nhabl segmentau busnes 2011/12 gyda ffigurau cymharol 2011 wedi'u hailddatgan.

## 3 Gwarged gweithredu

### 3.1 Datgenir gwarged gweithredu ar ôl codi

| | **2012** | 2011 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **162,356** | 185,640 |
| Darpariaethau ar gyfer costau indemniad | **5,000** | (1,200) |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 22) | **8,919** | 8,262 |
| Hurio peiriannau | **6,829** | 6,513 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **68** | 68 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir | **6,521** | 8,491 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir | **2,661** | 2,828 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **2,938** | 7,296 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **472** | 11,346 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **2,331** | 2,565 |
| Incwm amrywiol[1] | **(1,906)** | (2,538) |

1 Nid yw incwm amrywiol yn cynnwys incwm masnachol, sydd wedi'i ddatgelu ar wahân yn awr yn nodyn 2.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | 2012 | | | | 2011 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Ymadawiad cynnar** | **RhTC a Glasbrint** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Ymadawiad cynnar | RhTC a Glasbrint | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **397** | **14,083** | **4,850** | **19,330** | 12,709 | 26,376 | 7,652 | 46,737 |
| Costau a ddarparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | **2,060** | **(390)** | **-** | **1,670** | 30,606 | 10,504 | - | 41,110 |
| | **2,457** | **13,693** | **4,850** | **21,000** | 43,315 | 36,880 | 7,652 | 87,847 |
| Elw ar waredu | **-** | **-** | **(5,874)** | **(5,874)** | - | - | (39,324) | (39,324) |
| | **2,457** | **13,693** | **(1,024)** | **15,126** | 43,315 | 36,880 | (31,672) | 48,523 |

Mae'r elw ar waredu yn gysylltiedig â'r pedwar eiddo a gafodd eu gwerthu yn ystod y cyfnod: St Andrew's Court, Portsmouth (£4.152 miliwn); Tŷ Bryn Glas, Abertawe (£1.387 miliwn); storfa ffeiliau Trefansel (0.180 miliwn) a Plumer House, Plymouth (£0.062 miliwn).

## 4 Gwybodaeth gweithwyr

### 4.1 Costau staff

| | 2012 | | | 2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | **130,049** | **168** | **130,217** | 147,308 | 1,495 | 148,803 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **9,633** | **5** | **9,638** | 10,709 | 12 | 10,721 |
| Costau pensiwn eraill | **24,178** | **11** | **24,189** | 28,054 | - | 28,054 |
| **Cyfanswm costau staff** | **163,860** | **184** | **164,044** | 186,071 | 1,507 | 187,578 |
| Costau staff ar secondiad | **(1,688)** | **-** | **(1,688)** | (1,938) | - | (1,938) |
| **Cyfanswm net costau staff** | **162,172** | **184** | **162,356** | 184,133 | 1,507 | 185,640 |

### 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2012 | | | 2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | **8** | **-** | **8** | 8 | - | 8 |
| Gweithredol | **3,925** | **-** | **3,925** | 4,544 | 1 | 4,545 |
| Gweinyddol | **251** | **8** | **259** | 317 | 11 | 328 |
| TG | **396** | **-** | **396** | 438 | 3 | 441 |
| | **4,580** | **8** | **4,588** | 5,307 | 15 | 5,322 |

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 48 i 53.

**4.4 Pensiynau**
Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy Brif Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar gyfer 2011/12 roedd cyfraniadau cyflogwr o £24.1 miliwn (2010/11: £28.0 miliwn) yn daladwy i'r Cynllun ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7 y cant a 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2011/12 sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Cyfraniadau cyflogwr y Gofrestrfa Tir i bensiynau budd-ddeiliaid partneriaeth ar gyfer 2011/12 oedd £46,383 (2010/11): £58,277). Hefyd cyfrannodd y Gofrestrfa Tir £3,071 pellach (2010/11: £4,153) i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd). Nid oedd unrhyw gyfraniadau dyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol neu gyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad yn berthnasol. Roedd pum unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronnus ychwanegol yn y flwyddyn oedd £57,569 (2010/11: £49,611).

Mae manylion pellach am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 48 i 53 a nodyn 1.6 ar dudalen 59.

## 5 Incwm buddsoddi

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **1,170** | 580 |

## 6 Costau cyllid

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **878** | 870 |

## 7 Difidend i'w dalu

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend i'w dalu | **13,776** | 14,006 |

Gweler nodyn 1.23 ar dudalen 61 am y polisi cyfrifyddu sy'n ymwneud â thaliadau difidend.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 8 Eiddo, offer a chyfarpar

### 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | | Offer a chyfarpar | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | **19,689** | **62,012** | **29,160** | **861** | **74,716** | **30,936** | **217,374** |
| Ychwanegiadau | **-** | **-** | **-** | **40** | **3,963** | **89** | **4,092** |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | **-** | **-** | **-** | **(462)** | **-** | **-** | **(462)** |
| Ailbrisio yn y flwyddyn | **(329)** | **(44)** | **(1,235)** | **-** | **-** | **-** | **(1,608)** |
| Ailddosbarthu asedau | **-** | **-** | **-** | **-** | **867** | **-** | **867** |
| Amhariad | **-** | **(201)** | **(422)** | **-** | **(17)** | **(24)** | **(664)** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **(94)** | **-** | **(4,052)** | **(25,320)** | **(29,466)** |
| Ar 31 Mawrth 2012 | **19,360** | **61,767** | **27,409** | **439** | **75,477** | **5,681** | **190,133** |
| **Dibrisiad ac amhariad cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | **-** | **11,090** | **5,008** | **-** | **54,836** | **27,472** | **98,406** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | **-** | **1,256** | **662** | **-** | **7,445** | **1,505** | **10,868** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **(37)** | **-** | **(3,875)** | **(24,415)** | **(28,327)** |
| Ar 31 Mawrth 2012 | **-** | **12,346** | **5,633** | **-** | **58,406** | **4,562** | **80,947** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2012** | **19,360** | **49,421** | **21,776** | **439** | **17,071** | **1,119** | **109,186** |

### 8.2 Cost neu brisiad

| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2010 | 34,592 | 100,396 | 29,552 | 964 | 64,533 | 34,000 | 264,037 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 1,199 | 15,891 | 58 | 17,148 |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | - | 48 | - | (1,302) | 396 | 279 | (579) |
| Ailbrisio yn y flwyddyn | (753) | 1,477 | (48) | - | - | - | 676 |
| Ailddosbarthu asedau | - | - | - | - | 15 | (15) | - |
| Trosglwyddo asedau a ddelir i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | (4,700) | (15,820) | - | - | - | - | (20,520) |
| Amhariad | - | - | (344) | - | - | - | (344) |
| Gwarediadau | (9,450) | (24,089) | - | - | (6,119) | (3,386) | (43,044) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 19,689 | 62,012 | 29,160 | 861 | 74,716 | 30,936 | 217,374 |

**Dibrisad ac amhariad cronedig**

| | Eiddo | | | | Offer a chyfarpar | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol Tir | Adeiladau | Prydlesol Adeiladau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2010 | - | 11,778 | 4,229 | - | 52,454 | 28,053 | 96,514 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 2,493 | 779 | - | 7,932 | 2,264 | 13,468 |
| Trosglwyddo asedau a ddelir i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | - | (811) | - | - | - | - | (811) |
| Gwarediadau | - | (2,370) | - | - | (5,550) | (2,845) | (10,765) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | - | 11,090 | 5,008 | - | 54,836 | 27,472 | 98,406 |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2011** | 19,689 | 50,922 | 24,152 | 861 | 19,880 | 3,464 | 118,968 |

Gweler nodyn 1.7 ar dudalen 59 am fanylion polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.
Gweler nodyn 1.8 ar dudalen 60 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.
Swm net y prydlesi cyllid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.32 miliwn (2010/11: £3.23 miliwn). Yn y flwyddyn roedd £0.191 miliwn o ddibrisio a £0.279 miliwn o ailbrisio yn berthnasol i'r asedau hyn.

**8.3 Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu**

Ailbrisiwyd Brickdale House Stevenage a Birkenhead House, Lytham yn 2010/11 am werth teg llai costau i'w gwerthu ac fe'u trosglwyddwyd i asedau wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu. Yn 2011/12 mae'r adeiladau hyn yn parhau ar y datganiad o sefyllfa ariannol fel asedau wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu ac fe'u hailbrisiwyd yn 2011/12 am werth teg llai costau i'w gwerthu. Gwerthwyd tri adeilad yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu cofnodi fel asedau a ddelir i'w gwerthu yn 2010/11, sy'n esbonio'r lleihad mewn gwerth o 2011/12.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 9 Asedau anniriaethol

| 9.1 Cost | Costau datblygu | E-drawsgludo ar waith | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | - | - | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **72,017** | **99,441** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - | **1,045** | **1,045** |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | - | - | - | - | - | **462** | **462** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | **(867)** | **(867)** |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | **(26)** | **(26)** |
| Ar 31 Mawrth 2012 | - | - | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **72,631** | **100,055** |
| **Amorteiddio** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | - | - | **2,504** | **4,125** | **191** | **64,624** | **71,444** |
| Tâl am y flwyddyn | - | - | **969** | **1,597** | **176** | **2,938** | **5,680** |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | **(26)** | **(26)** |
| Amhariad | - | - | - | - | - | **(5)** | **(5)** |
| Ar 31 Mawrth 2012 | - | - | **3,473** | **5,722** | **367** | **67,531** | **77,093** |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2012** | - | - | **6,218** | **10,245** | **1,399** | **5,100** | **22,962** |

| 9.2 Cost | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2010 | 17,244 | 21,117 | - | - | - | 70,862 | 109,223 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - | 946 | 946 |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | - | - | - | - | - | 579 | 579 |
| Ailddosbarthu | (10,812) | (16,612) | 9,691 | 15,967 | 1,766 | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | (52) | (52) |
| Amhariad | (6,432) | (4,505) | - | - | - | (318) | (11,255) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | - | - | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 72,017 | 99,441 |
| **Amorteiddio** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | - | 2,334 | - | - | - | 57,579 | 59,913 |
| Tâl am y flwyddyn | - | - | 1,740 | 2,644 | 102 | 7,237 | 11,723 |
| Ailddosbarthu | - | (2,334) | 764 | 1,481 | 89 | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | (27) | (27) |
| Amhariad | - | - | - | - | - | (165) | (165) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | - | - | 2,504 | 4,125 | 191 | 64,624 | 71,444 |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2011** | - | - | 7,187 | 11,842 | 1,575 | 7,393 | 27,997 |

## 10 Stocrestrau

| | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwaith ar y gweill | **1,365** | 1,215 |
| | **1,365** | 1,215 |

## 11 Masnach ac eraill i'w derbyn

### 11.1 Cyfredol

| | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| Masnach i'w dderbyn | **1,602** | 2,744 |
| Eraill i'w derbyn | **3,133** | 2,229 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **3,631** | 3,801 |
| | **8,366** | 8,774 |

Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer darparu gwasanaethau yw dau ddiwrnod. Ni chodir unrhyw log ar yr hyn sydd i'w dderbyn. Rhoddwyd lwfans ar gyfer symiau amcangyfrifedig nad oes modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau ac mae'r lwfans hwn wedi'i bennu drwy gyfeirio at brofiad diffygdalu yn y gorffennol. Bernir bod swm y fasnach ac eraill i'w derbyn yn frasamcan o'u gwerth teg.

### 11.2 Anghyfredol

| | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| Eraill i'w derbyn | **557** | 597 |
| Rhagdaliadau | **529** | 1,567 |
| | **1,086** | 2,164 |

## 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **82,304** | 217,336 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **38,933** | 34,799 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | **258,580** | 47,500 |
| Cyfanswm | **379,817** | 299,635 |

Asedau ariannol y Gofrestrfa Tir yw gweddillion banc ac arian a masnach ac eraill i'w derbyn, sy'n cynrychioli'r uchafswm risg credyd mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach ac eraill i'w derbyn ac mae wedi'i ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn glir o lwfansau ar gyfer symiau amheus i'w derbyn, wedi'u hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylif wedi'i gyfyngu oherwydd mae gweddillion banc y Gofrestrfa Tir yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Genedlaethol yn bennaf.

## Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 13 Masnach ac eraill i'w talu

| **13.1 Cyfredol** | **2012 £'000** | 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Masnach i'w dalu | **851** | 1,499 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **2,914** | 3,401 |
| Eraill i'w talu | **2,279** | 2,632 |
| Croniadau | **17,499** | 15,824 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **278** | 254 |
| Rhwymedigaethau prydles cyllid Menter Cyllid Preifat | **1,890** | 1,695 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | **7,279** | 5,012 |
| Difidend i'w dalu | **13,776** | 14,006 |
| | **46,766** | 44,323 |

Mae masnach ac eraill i'w talu yn cynnwys symiau sydd i'w talu ar gyfer prynu eitemau masnach a chostau rheolaidd yn bennaf. Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer eitemau masnach a brynwyd yw 4.9 diwrnod. Bernir bod swm yr eitemau masnach i'w talu sy'n cario yn frasamcan o'u gwerth teg.

| **13.2 Anghyfredol** | **2012 £'000** | 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **5,003** | 5,282 |
| Rhwymedigaethau prydles cyllid Menter Cyllid Preifat | **3,035** | 1,775 |
| | **8,038** | 7,057 |

## 14 Gweddillion rhynglywodraethol

| **14.1 I'w derbyn** | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2012** | 2011 | **2012** | 2011 |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | **2,831** | 2,866 | | - |
| Awdurdodau lleol | **450** | 30 | | - |
| Corfforaethau cyhoeddus | **1** | - | | - |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **3,282** | 2,896 | **-** | - |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **5,084** | 5,878 | **1,086** | 2,164 |
| **Cyfanswm i'w dderbyn** | **8,366** | 8,774 | **1,086** | 2,164 |

| **14.2 Symiau i'w talu** | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2012** | 2011 | **2012** | 2011 |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | **19,684** | 21,361 | | - |
| Awdurdodau lleol | | 109 | | - |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnach | **2,010** | - | | - |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **21,694** | 21,470 | **-** | - |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **25,072** | 22,853 | **8,038** | 7,057 |
| **Cyfanswm i'w dalu** | **46,766** | 44,323 | **8,038** | 7,057 |

# 15 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 15.1 Prydlesi cyllid

| | Isafswm taliadau prydles | | Gwerth presennol isafswm taliadau prydles | |
|---|---|---|---|---|
| | **2012** | 2011 | **2012** | 2011 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Symiau i'w talu o dan brydlesi cyllid | | | | |
| O fewn blwyddyn | **3,086** | 2,794 | **2,168** | 1,949 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **6,662** | 5,416 | **3,935** | 2,816 |
| Ar ôl pum mlynedd | **8,460** | 9,165 | **4,103** | 4,241 |
| | **18,208** | 17,375 | **10,206** | 9,006 |
| Llai: taliadau cyllid yn y dyfodol | **(8,002)** | (8,369) | | |
| Gwerth presennol ymrwymiadau prydles | **10,206** | 9,006 | | |
| Llai: swm i'w dalu ar gyfer y taliad llawn o fewn 12 mis (wedi'i ddangos o dan rwymedigaethau cyfredol) | | | **(2,168)** | (1,949) |
| Swm i'w dalu ar gyfer y taliad llawn ar ôl 12 mis | | | **8,038** | 7,057 |

### 15.2 Prydlesi gweithredu

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu a gydnabyddir yn y flwyddyn | **2,732** | 3,046 |
| Incwm gan denantiaid | **(401)** | (481) |
| | **2,331** | 2,565 |

Ar ddyddiad y fantolen roedd gan y Gofrestrfa Tir ymrwymiadau heb eu casglu ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu canslo, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **1,201** | 181 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **1,012** | 2,504 |
| Ar ôl pum mlynedd | **781** | 47 |
| Incwm sy'n ddyledus gan denantiaid | **(547)** | (401) |
| | **2,447** | 2,331 |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau.

# 16 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2012.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

### 17.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **Arall** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **2012** | | | | 2011 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | **46,436** | **10,519** | **166** | **57,121** | 20,978 | 552 | 1,541 | 23,071 |
| Ailbrisio darpariaeth | **2,668** | **856** | **1,581** | **5,105** | 30,703 | 10,505 | 8 | 41,216 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(13,630)** | **(9,273)** | **-** | **(22,903)** | (5,148) | (537) | (1,383) | (7,068) |
| Darpariaeth wedi'i hysgrifennu'n ôl heb ei defnyddio | **(608)** | **(1,246)** | **-** | **(1,854)** | (97) | (1) | - | (98) |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | **34,866** | **856** | **1,747** | **37,469** | 46,436 | 10,519 | 166 | 57,121 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau cyfredol | | | | **9,878** | | | | 24,923 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau anghyfredol | | | | **27,591** | | | | 32,198 |
| | | | | **37,469** | | | | 57,121 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £14.0 miliwn yn 2011/12, a darparwyd ar gyfer £13.6 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2010/11. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr i'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn ymddeol yn gynnar, ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig i'r gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau o staff hynny a fydd yn gadael y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol. Mae ychwanegiadau yn y flwyddyn hon yn ymwneud ag aelodau o staff sydd wedi gwneud ymrwymiad cadarn i fanteisio ar y cynnig o ddiswyddo cynnar yn 2011/12. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £23.3 miliwn yn 2011/12, a darparwyd ar gyfer £9.3 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2010/11.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 37 *Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn* yn datgan: "Os yw gwerth amser yr arian yn sylweddol, dylai swm y ddarpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth." Y ffactor disgownt a gymhwyswyd i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.9 y cant. Effaith dad-ddirwyn y disgownt yn 2011/12 oedd £2.4 miliwn (2009/10: £4.8 miliwn).

| **17.2 Cronfa Indemniad** | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | **21,800** | 23,000 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **13,837** | 7,941 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(8,837)** | (9,141) |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | **26,800** | 21,800 |

Sefydlwyd y Gronfa Indemniad yn 1993 ac mae'n cynrychioli'r swm a gyfrifir gan actiwariaid proffesiynol annibynnol fel y swm sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd statudol sydd ar y Gofrestrfa Tir i indemnio teitl cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Bydd hawliadau a brofwyd ac sydd wedi'u cynnwys gan y gronfa yn cael ei chodi, yn y lle cyntaf, yn erbyn y gronfa.

# 18 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn | **2,000** | 850 |

# 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o gamgymeriadau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Roedd yr holl hawliadau sy'n aros o dan y rhwymedigaeth hon fel y dangosir isod os yw hawliad yn debygol o fod yn llwyddiannus neu beidio. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys y swm a ddarparwyd yn y ddarpariaeth Cronfa Indemniad (gweler hefyd nodiadau 1.16 a 17.2).

| | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| Mewn perthynas â chofnodion ar y gofrestr | **17,593** | 9,775 |
| Twyll a ffugio | **57,366** | 57,616 |
| | **74,959** | 67,391 |

# 20 Nodiadau ar y datganiad llif arian parod

| **20.1 Cysoni gwarged gweithredu i'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 2012<br>£'000 | 2011<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwarged gweithredu | **101,607** | 64,856 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **(18,944)** | (85,341) |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | **9,182** | 11,319 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **2,938** | 7,296 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **472** | 255 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anniriaethol | **-** | 11,091 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | **(19,652)** | 34,050 |
| Cynnydd mewn stocrestrau | **(150)** | (392) |
| Gostyngiad mewn symiau i'w derbyn | **1,598** | 5,146 |
| Cynnydd mewn symiau i'w talu | **2,316** | 4,138 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y Gronfa Indemniad | **5,000** | (1,200) |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **84,367** | 51,218 |

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

| **20.2 Cysoni'r llif arian parod net â'r symudiad mewn arian parod net** | **2012** | | 2011 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | **Cronfeydd y Gofrestrfa Tir** | **Adneuon cwsmeriaid** | Cronfeydd y Gofrestrfa Tir | Adneuon cwsmeriaid |
| Arian parod net ar ddechrau'r cyfnod | **299,635** | **147** | 237,325 | 314 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod | **80,182** | **(147)** | 62,310 | (167) |
| Arian parod net ar ddiwedd y cyfnod | **379,817** | **-** | 299,635 | 147 |

## 21 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau partïon cysylltiedig,* fel y'i dehonglwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn cafodd nifer o drafodion sylweddol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nid yw unrhyw aelodau o'r bwrdd, aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol â'r Gofrestrfa Tir.

## 22 Partneriaethau cyhoeddus-breifat

Dyfarnwyd contract ym mis Gorffennaf 2009 i Steria am gyfnod o bum mlynedd (gyda'r dewis o'i estyn am ddwy flynedd bellach) o dan drefniadau partneriaeth cyhoeddus-breifat. Gofynnir i Steria ddylunio, gweithredu a rheoli'r seilwaith TG ar gyfer systemau cofrestru'r Gofrestrfa Tir. Bydd y seilwaith yn cynnal y Gofrestrfa Tir wrth iddi symud tuag at integreiddio ei chofrestri, cynlluniau teitl a gweithredoedd ategol cyfrifiadurol. Gweler nodyn 1.21 ar dudalen 61 am y polisi cyfrifyddu sy'n cwmpasu contract Steria.

Mae Steria yn darparu gwasanaeth wedi'i reoli a chyflawnir hyn gyda thîm ar y safle sy'n gweithio mewn partneriaeth â gweinyddwyr system lleol y Gofrestrfa Tir. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar asedau TG y Gofrestrfa Tir, mae cyfrifiaduron personol, gweinyddwyr a bothau sy'n gydnaws â'r gwasanaeth wedi'i reoli yn cael eu cynnal gan Steria ar ran y Gofrestrfa Tir.

Ar gyfer 2011/12 codwyd £8.92 miliwn (2010/11: £8.26 miliwn) o dan gontract Steria ar y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae taliadau yn y dyfodol a ymrwymwyd o dan gontract Steria i'w gweld isod.

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 8,381 | 8,890 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | 11,087 | 19,311 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| | 19,468 | 28,201 |

Oherwydd yr hyblygrwydd sy'n rhan o'r contract, amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn a gallant newid yn dibynnu ar gynlluniau trawsnewid y Gofrestrfa Tir.

## 23 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2012** | | 2011 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Targed** | Gwirioneddol | Targed |
| | **%** | **%** | % | % |
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | **19.7** | **3.5** | 16.4 | 3.5 |

O dan ganllawiau'r Gronfa Fasnachu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ceir yr egwyddor o 'gymryd un flwyddyn gyda'r llall' lle mae'r enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn cael eu defnyddio dros gyfnod o bum mlynedd. Am y cyfnod o bum mlynedd yn dechrau 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2012 yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yw 8.4 y cant (2010/11: 8.9 y cant).

## 24 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 *Offerynnau ariannol: datgeliadau* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon sylweddol yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg cyfradd llog neu risg arian gyfred.

## 25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion Safon Adrodd Ryngwladol 10 *Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd,* mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi arno. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad y dystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Digwyddiad nad yw'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd**

Ar 11 Mai cwblhawyd gwerthu Swyddfa Lytham, Birkenhead House am £3.1 miliwn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr eiddo yn cael ei ddal ar y datganiad o sefyllfa ariannol o fewn asedau a ddelir i'w gwerthu ar werth y farchnad o £3.011 miliwn. O ganlyniad i'r gwerthiant cafwyd enillion ar waredu o £4.333 miliwn, sy'n cynnwys rhyddhad cronfa ailbrisio o £4.264 miliwn ac enillion ar waredu o £0.069 miliwn.

Fel rhan o'r ymarfer caffael prif ffrâm cyhoeddodd IBM dystysgrif gredyd. Nid yw'n nodyn credyd ac mae gwerth iddo dim ond os yw'n cael ei fwcio yn erbyn gwaith yn y dyfodol neu gyflenwi nwyddau gydag IBM. Defnyddiwyd y dystysgrif gredyd hon i brynu asedau o dan y cytundeb ESSO newydd hyd at werth £2 filiwn. Daeth cytundeb ESSO a'r asedau hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2012; felly ni chafwyd unrhyw fudd economaidd o'r trafodiad yn y flwyddyn ariannol hon.

# Atodiadau

# Atodiad A

**Maint o waith/llwyth gwaith**

| | **2011/12** | **2010/11** |
|---|---|---|
| Ceisiadau | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 146,274 | 184,668 |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 166,934 | 144,348 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 125,285 | 120,529 |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig (ac eithrio swmp-ddiweddariadau i'r gofrestr) | 3,431,281 | 3,059,680 |
| Swmp-ddiweddariadau i'r gofrestr | 329,174 | 1,029,524 |
| [1] Gwasanaethau cychwynnol (OS, OC, CI, SIM, HR3) | 12,926,133 | 9,423,195 |
| Gohebiaeth | 320,383 | 353,022 |
| Gwasanaethau ymholiadau ffôn | 1,321,872 | 1,540,184 |
| Gweld y gofrestr | 3,847,098 | 3,985,839 |
| Gweld cynllun teitl | 620,568 | 591,606 |
| Gweld dogfen | 71,499 | 80,973 |
| Cyfanswm ceisiadau | 23,306,501 | 20,513,568 |
| | | |
| Gwasanaethau cychwynnol yn ôl dull cyflenwi | | |
| *Copïau swyddogol (ac eithrio CI)* | | |
| Drwy'r post | 351,627 | 282,361 |
| Drwy e-wasanaethau | 8,833,601 | 5,612,667 |
| Dros y ffôn | 130,514 | 120,339 |
| Cyfanswm | 9,315,742 | 6,015,367 |
| | | |
| *Chwiliadau swyddogol (OS1, OS2, OLA)* | | |
| Drwy'r post | 115,773 | 173,643 |
| Drwy e-wasanaethau | 1,663,829 | 1,502,252 |
| Dros y ffôn | 57,762 | 88,246 |
| Cyfanswm | 1,837,364 | 1,764,141 |
| | | |
| *Chwiliad swyddogol o'r map mynegai (SIM, SIF, PST)* | | |
| Drwy'r post | 521,045 | 657,927 |
| Drwy e-wasanaethau | 1,060,388 | 766,056 |
| Dros y ffôn | 54,772 | 70,645 |
| Cyfanswm | 1,636,205 | 1,494,628 |

parhad

[1] Mae'r cynnydd yn allbwn copi swyddogol i'w briodoli'n rhannol i gyflwyno sylfaen adrodd newydd a gafodd ei chymeradwyo gan y bwrdd.

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Tystysgrif Archwilio cynllun teitl (CI) | 5,325 | 5,212 |
| Chwiliadau hawliau cartref (Ffurflen HR3) | 131,497 | 143,847 |
| Gweld y gofrestr | 3,847,098 | 3,985,839 |
| Gweld cynllun wedi'i ffeilio | 620,568 | 591,606 |
| Gweld dogfen | 71,499 | 80,973 |
| Cyfanswm | 4,675,987 | 4,807,477 |
| | | |
| Cyfanswm cychwynnol | 17,465,298 | 14,081,613 |
| | | |
| Arall | | |
| Adroddiadau pwrpasol eiddo | 646 | 647 |
| Chwiliadau personol o'r gofrestr (PIC) | 428 | 1,064 |

# Atodiad B

**Cofnod y Trysorlys dyddiedig 15 Rhagfyr 2003**

1 Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd cronfa fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff cronfa fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r gronfa fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973); ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno i:
   (a) rheoli'r gweithrediadau a gyllidir fel bod refeniw'r gronfa:
      (i) yn cynnwys yn bennaf dderbyniadau am nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y gweithrediadau a gyllidir; a
      (ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol ar y cyfrif refeniw; a
   (b) cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddir gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.

2 Sefydlwyd cronfa fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y gronfa fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Dyrannwyd asedau ychwanegol i'r gronfa fasnachu ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y gronfa fasnachu ei hehangu a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).

3 Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2012 fydd sicrhau enillion, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan, o isafswm o 3.5 y cant ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn llog (i'w talu ac i'w derbyn) a difidendau wedi'u mynegi fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.

4 Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 1 Ebrill 1993.

5 Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.






TSO

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael drwy'r canlynol:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantaethau achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-297765-3